

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil Gymdeithasol Rhif: 3/2020

Dyddiad cyhoeddi: 08/01/2020

Grant cymorth tai: datblygiad fformiwla ariannu

GRANT CYMORTH TAI:

Datblygiad fformiwla ariannu

Adroddiad gan:



Barn yr ymchwilydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn
ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach cysylltwch â:

Rhian Davies

Isadran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 03000 256791

E-bost :Rhian.davies45@llyw.cym

Tabl Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	3
Cefndir.....	7
Nodau'r ymchwil.....	7
Deddfwriaeth ddigartrefedd yng Nghymru.....	7
Cefnogi Pobl.....	8
Grant Atal Digartrefedd	8
Cyllid Gorfodi Rhentu Doeth Cymru	8
Adolygiad o'r llenyddiaeth.....	9
Datblygu fformiwla ariannu.....	9
Beth yw fformiwla ariannu?	9
Prif egwyddorion arweiniol ar gyfer fformiwla ariannu	9
Mathau o fformiwlâu ariannu seiliedig ar angen	10
Dull fesul pen	11
Dulliau cymhleth.....	11
Gyrwyr costau	12
Trefniadau pontio	12
Enghreifftiau o fformiwlâu ariannu	13
Gwersi a ddysgwyd o fformiwla Aylward	13
Fformiwla Ariannu Cefnogi Pobl yr Alban.....	14
Fformiwla Ariannu Setliad Llywodraeth Leol	15
Ymgysylltu rhanddeiliaid	16
Dull	16
Cyd-destun.....	16
Lefelau ariannu	17
Penderfyniadau yn yr arfaeth	18
Egwyddorion y fformiwla ariannu	18
Trefniadau Pontio.....	19
Cyfnod pontio	19
Rhannu gwybodaeth a meithrin gallu	22
Cyfathrebu.....	22
Strategaethau Pontio Arfaethedig	22
Newidiadau yn y Galw gan Gleientiaid	23
Gyrwyr ariannu.....	24
Cyfleoedd i optimeiddio ariannu	26
Rhentu Doeth Cymru	26
Pryderon eraill gan rhanddeiliaid.....	27
Effaith ar ddarparwyr gwasanaeth.....	27
Tai yn Gyntaf.....	27
Adborth o'r ail gylch o weithdai	27
Dull o ddatblygu fformiwla newydd	27
Trefniadau pontio	28
Ystyriaethau eraill.....	28
Clystyru rhanbarthol	29
Sefydlogrwydd lefelau ariannu o dan ddull fformiwla	29

Ffynonellau data.....	30
Newidynnau a ystyrir ar gyfer fformiwla ariannu	30
Dethol newidynnau.....	30
Dangosyddion setliad llywodraeth leol	30
Ffynonellau data ychwanegol.....	30
Dewis ffynonellau cadarn	32
Credyd Cynhwysol (CC).....	32
Argymhellion fformiwla ariannu newydd	33
Dull	33
Cam I. Cadw at gynseiliau setliad	33
Cam II. Defnyddio Cynlluniau Gwariant 2019/20 i lywio dyluniad fformiwla	33
Cam III. Addasu ar gyfer gwledigrwydd / prinder poblogaeth	35
Cam IV. Addasu i ymdrin â'r newidiadau mwyaf posibl mewn ariannu	36
Cam V. Dylunio trefniadau pontio.....	37
Fformiwla ariannu newydd a lefelau ariannu pontio	37
Fformiwla ariannu.....	37
Gwariant fesul pen cyson fel meincnod	38
Amcangyfrif o ddyraniadau ariannu cyflwr cyson	38
Dadansoddiad rhanbarthol	42
Amrywiadau blynyddol o dan y fformiwla ariannu	43
Casgliad.....	43
Atodiad A: Gwerthoedd dangosyddion 2019/20 a ddefnyddir ar gyfer amcangyfrif y	
dyraniad ariannu newydd	44
Atodiad B: Cyfeiriadau.....	45

Crynodeb Gweithredol

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn y broses o weithredu'r Grant Cymorth Tai newydd, rhaglen grant ymyrraeth gynnar sy'n ceisio atal digartrefedd trwy helpu a chefnogi grwpiau agored i niwed. Bydd y rhaglen hon yn dod â gweinyddiaeth ffrydiau cyllido presennol ar gyfer Cefnogi Pobl, y Grant Atal Digartrefedd a Rhentu Doeth Cymru o dan un ymbarél. Fel rhan o ddatblygiad y Grant Cymorth Tai, mae Llywodraeth Cymru yn dymuno datblygu fformiwlâ ariannu newydd ar gyfer dyrannu cyllid Grant Cymorth Tai i awdurdodau lleol; un sy'n adlewyrchu lle mae'r angen mwyaf, y cyd-destun lleol a gyrywyr polisi ehangach.

Fel rhan o'r fenter hon, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Alma Economics i: adolygu fformiwlâu cyllido blaenorol a chyfredol; ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol (gan gynnwys awdurdodau lleol) i ddeall yn well yr heriau, y safbwyntiau a'r pryderon allweddol mewn perthynas â gweithredu fformiwlâ ariannu newydd; a datblygu methodoleg addas ar gyfer cynnig fformiwlâ ariannu newydd ar gyfer dyrannu cyllid o dan y rhaglen Grant Cymorth Tai. Yn ystod y prosiect hwn, casglwyd barn amrywiaeth o wahanol rhanddeiliaid trwy gyfres o weithdai, cyfweiliadau lled-strwythuredig ac arolygon.

Mae fformiwlâu cyllido yn fecanweithiau a ddefnyddir yn gyffredin ar gyfer pennu lefel y cyllid a ddyrennir i sefydliadau datganoledig ar gyfer darparu gwasanaethau i'w cleientiaid. Os caiff ei strwythuro yn y ffordd iawn, gall fformiwlâ ariannu fod yn ffordd effeithlon a gwrthrychol o ddyrannu cyllid i'r man lle mae ei angen fwyaf. Ceisiodd fformiwlâ ariannu Aylward, a weithredwyd gyntaf yn 2012/13, ddosbarthu cyllid ar gyfer Cefnogi Pobl gan ddefnyddio dull newydd yn seiliedig ar anghenion. Fodd bynnag, yn y pen draw, daethpwyd â'r fformiwlâ ariannu i ben gan Lywodraeth Cymru yn 2015/16, gyda'r ailddyrannu yn arwain at doriadau cyllido mawr i rai awdurdodau lleol, a waethygyd ymhellach gan doriadau cyllidebol a ysgogwyd gan gynydd, diffyg cyfnod pontio digonol, a phroblemau data yn achos rhai o ddangosyddion cyfansoddol y fformiwlâ. Ers hynny, mae dyraniadau cyllid ar gyfer Cefnogi Pobl wedi'u rhewi yn yr un cyfrannau â 2015/16, tra'n disgwyl fformiwlâ ariannu amgen.

Awgrymodd canlyniadau'r ymgysylltu â rhanddeiliaid y dylai'r cyd-destun fod yn ffactor pwysig wrth ddatblygu fformiwlâ ariannu newydd, ac o'r herwydd, dylai fformiwlâ ariannu effeithiol adlewyrchu'r galw (angen) cyfredol ac yn y dyfodol am wasanaethau, costau disgwyliedig darparu gwasanaeth a'r hyd amser sy'n angenrheidiol i awdurdodau lleol addasu i unrhyw newidiadau mewn cyllid. O ran y galw am wasanaethau yn y dyfodol, nododd yr ymchwil mai digartrefedd, amddifadedd ac iechyd meddwl gwael yw prif ysgogwyr yr angen ariannu am gyllid Grant Cymorth Tai. Awgrymodd yr ymgysylltiad â rhanddeiliaid mai'r grwpiau defnyddwyr sydd fwyaf mewn perygl o gynyddu gwariant oedd y rhai â phroblemau iechyd meddwl, pobl ifanc ag anghenion cymorth a'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. I'r gwrthwyneb, awgrymodd canlyniadau'r arolwg o'r ymchwil hon y disgwyliad i'r galw am wasanaethau larwm fod yn is yn y dyfodol.

Mae gwariant enwol ar y rhaglen Cefnogi Pobl wedi cael ei rewi yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae llawer o awdurdodau lleol wedi awgrymu bod hyn wedi effeithio ar eu gallu i gynnal ansawdd gwasanaeth ar gyfer rhaglenni sy'n gysylltiedig â Chefnogi Pobl yng ngoleuni chwyddiant a chostau staff cynyddol. Nododd yr ymchwil hon boblogaeth, amddifadedd a gwledigrwydd fel ffactorau allweddol sy'n gyrru'r gost o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'n amlwg hefyd y dylai trefniadau pontio, lle mae unrhyw newidiadau i ddyraniadau cyllid yn cael eu cyflwyno fesul cam dros gyfnod o amser, fod yn elfen bwysig mewn unrhyw fformiwlâ ariannu er mwyn sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl ar ddarpariaeth gwasanaeth a

lleihau'r risg i gynaliadwyedd ariannol awdurdodau lleol. Yn ddelfrydol, dylai hyd cyfnod pontio adlewyrchu ymrwymïadau cytundebol presennol gyda chyflenwyr, sicrhau parhad darparu gwasanaethau cyhoeddus, ac ystyried amseroedd arwain polisi sy'n bodoli eisoes.

Awgrymodd rhanddeiliaid y byddai angen cyfnod pontio mwy i weithredu cyllid Cefnogi Pobl ar gyfer newidiadau mawr o'i gymharu â rhai bach i gyllid, ac y byddai gostyngiadau i gyllid yn debygol o fod angen cyfnod pontio mwy na chynnydd cyfatebol. Roedd consensws cyffredinol ymhlith rhanddeiliaid y dylai trefniant pontio rychwantu cyfnod o 5 mlynedd o leiaf.

Yn nodweddiadol, mae fformiwlâu ariannu yn dyrannu cyllid ar sail angen, gyda mesurau angen yn cael eu hamcangyfrif a'u pwysoli fel y bernir yn briodol, a chyllid yn y pen draw yn cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol yn seiliedig ar ganlyniadau cymharol y fformiwla. Dull cyffredin a chymharol syml yw dyrannu cyllid fesul pen; fodd bynnag, mae llawer o fformiwlâu ariannu hefyd yn dal dangosyddion angen ehangach fel amddifadedd, gwledigrwydd neu nifer y rhai sy'n derbyn budd-daliadau lles.

Yn dilyn y rhyngweithio â rhanddeiliaid a'r adolygiad o fformiwlâu ariannu cyfredol a blaenorol, sefydlodd yr ymchwil hon y dylai fformiwla ariannu effeithiol fod:

- Yn adlewyrchu **anghenion** cyfredol ac i'r dyfodol y defnyddwyr gwasanaeth;
- **Teg** - ddim yn ffafrio grwpiau cleientiaid nac ardaloedd penodol yn ormodol;
- Yn **dryloyw** a chymharol hawdd ei **ddeall**;
- **Sefydlog** - galluogi awdurdodau lleol i gynllunio'n gyson ac yn gywir yn y tymor canolig;
- **Hyblyg** - caniatáu i awdurdodau lleol ymateb i newidiadau yn y galw am wasanaethau cyhoeddus;
- **Diogelu at y dyfodol** - arddangos cadernid i unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg (e.e. newid demograffig) neu newidiadau i'r amgylchedd polisi (e.e. Credyd Cynhwysol);
- Yn seiliedig ar fethodoleg ddadansoddol **gadarn** sy'n defnyddio ffynonellau data cyfredol a **gwrthrychol**; ac
- Yn adlewyrchu'r **cyd-destun** y caiff ei ddefnyddio ynddo, fel pwrpas trosfwaol y rhaglen Grant Cymorth Tai.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd trwy gydol y prosiect hwn, mae'r adroddiad hwn yn cynnig methodoleg 5 cam newydd ar gyfer cyfrifo dyraniadau cyllid awdurdodau lleol ar gyfer y rhaglen Grant Cymorth Tai. Mae'r 5 cam hyn yn cynnwys:

- I. **Cadw at gynseiliau setliad llywodraeth leol:** er mwyn sicrhau cysondeb â dyraniadau ariannu awdurdodau lleol eraill, ystyriwyd cynseiliau presennol setliad llywodraeth leol Cymru fel y'u nodwyd yn y 'Llyfr Gwyrdd';
- II. **Defnyddio Cynlluniau Gwariant 2018/19 i lywio dyluniad fformiwla:** y grwpiau cleientiaid a nodwyd yng nghynlluniau gwariant awdurdodau lleol i fod yn gysylltiedig â dangosyddion angen priodol, gyda chyfanswm y gwariant ar gyfer pob grŵp cleientiaid yn cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol yn gymesur â'u mesur o angen cymharol;
- III. **Addasu'r fformiwla ar gyfer gwledigrwydd a phrinder poblogaeth:** addasiad pellach i'w wneud i'r fformiwla i adlewyrchu'r gost gyffredinol uwch o ddarparu cefnogaeth i gleientiaid mewn ardaloedd gwledig a llai poblog;

- IV. **Addasu'r fformiwlâ i ymdrin â'r newidiadau mwyaf posibl mewn cyllid:** rhoi pwysau i ddyraniad cyllidebol 2019/20 i gyfyngu ar faint unrhyw newidiadau ariannu posibl. Nod yr addasiad hwn yw osgoi newidiadau ariannu mawr iawn a allai fygwth parhad darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus a hyfywedd ariannol awdurdodau lleol; a
- V. **Dylunio trefniadau pontio:** pennu cyfnod pontio priodol i lyfnhau unrhyw newidiadau yn lefelau ariannu awdurdodau lleol dros nifer o flynyddoedd.

Gan ddefnyddio'r fethodoleg pum cam hon, cynhyrchwyd amcangyfrifon o sut olwg fyddai ar ddyraniadau cyllid awdurdodau lleol o dan y fformiwlâ ariannu newydd. Mae'r dyraniadau cyllid arfaethedig a'r dyraniadau cyllid presennol yn cael eu cymharu yn y tabl isod.


Amcangyfrif o ddyraniadau ariannu cyflwr cyson (ar ôl pontio) yn ôl awdurdod lleol

	Cyfredol	Cyson fesul pen	% gwahaniaeth o'r cyfredol	Fformiwlâ ariannu newydd	% gwahaniaeth o'r cyfredol
Ynys Môn	2.1%	2.2%	4.8%	2.3%	6.2%
Gwynedd	4.1%	4.0%	-2.9%	3.7%	-9.6%
Conwy	5.2%	3.7%	-28.5%	4.1%	-21.2%
Sir Ddinbych	4.4%	3.1%	-31.2%	3.7%	-15.8%
Sir y Fflint	4.7%	5.0%	5.5%	4.5%	-4.3%
Wrecsam	4.0%	4.5%	11.4%	3.8%	-5.5%
Powys	4.2%	4.2%	1.2%	3.7%	-10.5%
Ceredigion	2.4%	2.4%	2.5%	2.4%	0.6%
Sir Benfro	2.2%	4.0%	80.6%	3.5%	57.6%
Sir Gaerfyrddin	5.3%	6.0%	13.3%	5.9%	12.3%
Abertawe	11.2%	7.8%	-29.9%	9.0%	-19.8%
Castell-nedd Port Talbot	3.9%	4.5%	16.3%	4.6%	18.9%
Pen-y-bont ar Ogwr	4.7%	4.6%	-2.8%	4.3%	-8.7%
Bro Morgannwg	2.8%	4.1%	46.4%	3.3%	17.5%
Rhondda Cynon Taf	7.3%	7.6%	4.0%	7.9%	7.5%
Merthyr Tudful	1.7%	1.9%	10.2%	1.9%	12.7%
Caerffili	5.0%	5.8%	14.6%	5.8%	15.4%
Blaenau Gwent	2.1%	2.2%	7.1%	2.7%	32.1%
Torfaen	2.8%	2.9%	5.9%	3.0%	9.2%
Sir Fynwy	1.6%	3.0%	80.8%	2.0%	24.4%
Casnewydd	5.1%	4.8%	-7.5%	5.2%	1.6%
Caerdydd	13.2%	11.8%	-10.3%	12.6%	-4.1%
Cyfanswm	100%	100%	-	100%	-
Cynnydd canolrif	-	-	10.2%	-	12.7%
Gostyngiad canolrif	-	-	-10.3%	-	-9.6%

Mae canlyniad yr ymarfer hwn yn ceisio dosbarthu cyllid Grant Cymorth Tai i awdurdodau lleol mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r angen sylfaenol. Mae'r fformiwlâ ariannu arfaethedig yn cynnwys mecanweithiau i leddfu effaith unrhyw ostyngiadau i gyllid awdurdodau lleol. Yn seiliedig ar adborth rhanddeiliaid, mae'r fformiwlâ ariannu arfaethedig yn cynnwys cyfnod pontio saith mlynedd a fyddai'n rhoi cyfanswm o wyth mlynedd i awdurdodau lleol addasu i unrhyw newidiadau yn y dyraniadau cyllid (os cynhwysir y flwyddyn rhwng cyhoeddi a gweithredu). Mae'r fformiwlâ sylfaenol hefyd yn cynnwys addasiad penodol i gapio maint unrhyw newid mewn cyllid ar gyfer awdurdodau lleol lle gwelir gostyngiad mewn cyllid.

Mae'r ffeithluniau isod yn dangos lefelau cyllid y pen ar gyfer pob awdurdod lleol o'i gymharu â'r hyn sy'n derbyn y mwyaf o arian, o dan y dyraniadau cyllid cyfredol ac arfaethedig. Yr hyn sy'n amlwg yw bod y fformiwla ariannu arfaethedig yn sicrhau lledaeniad mwy cyfartal o gyllid y pen. Mae llawer o'r effaith hon trwy leihau gwasgariad y dosbarthiad yn hytrach na newid safle lefel y cyllid y pen a dderbynnir.

Ariannu Cefnogi Pobl / Grant Cymorth Tai fesul pen fel canran o'r ariannu awdurdod lleol uchaf fesul pen



Nodau'r ymchwil

- 1.1 Mae Alma Economics wedi cael ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo i ddatblygu fformiwla ariannu ar gyfer y Grant Cymorth Tai newydd, a fydd yn cyfuno ffrydiau ariannu ar gyfer Cefnogi Pobl, Atal Digartrefedd a gorfodi Rhentu Doeth Cymru. Nod y prosiect hwn yw:
 - Adolygu ac asesu fformiwlâu ariannu cyfredol y tair ffrwd ariannu o dan y Grant Cymorth Tai i ddeall eu cryfderau a'u gwendidau;
 - Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn y sector i ddeall y prif heriau, pryderon a barn am y broses ddyrannu cyllid gyfredol ac yn y gorffennol, gyda'r nod o ddatblygu fformiwla newydd ar gyfer Grant Cymorth Tai a fyddai'n mwynhau consensws eang; a
 - Datblygu gwahanol opsiynau ar gyfer fformiwla dosbarthu ariannu newydd trwy gydweithredu â rhanddeiliaid.

Deddfwriaeth ddigartrefedd yng Nghymru

- 1.2 Darn diffiniol o ddeddfwriaeth ddigartrefedd yn y DU oedd Deddf Tai (Pobl Digartrefedd) 1977. Amlygodd y ddeddfwriaeth am y tro cyntaf ddyletswyddau digartrefedd awdurdodau lleol trwy wneud ail-gartrefu rhai grwpiau o bobl ddigartref yn gyfrifoldeb awdurdodau lleol.¹ Diffiniodd y Ddeddf y grwpiau o bobl sydd ag 'angen blaenoriaeth' ac, felly, sydd â hawl i sicrhau llety sefydlog. Sylfaen hanfodol Deddf 1977 ac, yn ddiweddarach, Rhan 7 o Ddeddf Tai 1996 oedd y prawf Angen Blaenoriaeth. Roedd hyn yn nodi mai dim ond aelwydydd sydd ag 'angen blaenoriaeth' - h.y. cartrefi â menyw feichiog, plant dibynnol neu oedolyn bregus - sy'n gymwys i gael llety parhaol diogel. Roedd Deddf 1977 yn ddarn pwysig o ddeddfwriaeth ar gyfer amddiffyn pobl ddigartrefedd, ond eto, tynnodd linell rhwng y bobl y diffiniwyd sydd mewn angen blaenoriaeth a'r rhai nad ydynt mewn angen.
- 1.3 Mae'r diwygiadau diweddaraf i ddeddfwriaeth ddigartrefedd Cymru yn Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn adlewyrchu newid clir yn ffocws Llywodraeth Cymru o angen blaenoriaethol i atal. Ceisiodd y diwygiad gefnogi nid yn unig y rhai mewn angen blaenoriaeth ond pawb sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, gan gyflwyno dyletswyddau rhyddhad ac atal, ni waeth a yw person mewn 'angen blaenoriaeth' neu beidio. Roedd y datblygiad polisi hwn yn hollbwysig, ond ar yr un pryd roedd pwysau ariannol cynyddol ar awdurdodau lleol yr oedd yn ofynnol iddynt ehangu eu darpariaeth o wasanaethau.
- 1.4 Yn 2017/18 dosbarthwyd cyfanswm o 11,277 o aelwydydd fel pobl ddigartref, cynnydd o 3% o ffigur y flwyddyn flaenorol o 10,908 o aelwydydd digartref.² O'r 11,277 o aelwydydd yr aseswyd eu bod yn ddigartref, ac a oedd felly'n teilyngu dyletswydd gofal am gymorth i sicrhau llety diogel, rhyddhawyd 41% o'u digartrefedd yn llwyddiannus. Fodd bynnag, rhyddhawyd 37% yn aflwyddiannus o ddigartrefedd ac ni dderbyniodd 22% gefnogaeth am resymau eraill, e.e. tynnu cais yn ôl neu beidio â chydweithredu.

¹ Crisis (2015) [The homelessness legislation: an independent review of the legal duties owed to homeless people](#).

² Llywodraeth Cymru (2018) [Digartrefedd yng Nghymru 2017-18](#).

Cefnogi Pobl

- 1.5 Y ffynhonnell allweddol ar gyfer cyllid digartrefedd a chymorth cysylltiedig â thai yng Nghymru yw'r rhaglen Cefnogi Pobl, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2003. Mae'r rhaglen Cefnogi Pobl - sy'n grant wedi'i neilltuo - yn darparu gwasanaethau cysylltiedig â thai gyda'r nod o gynorthwyo pobl agored i niwed sydd mewn perygl o fod yn ddigartref i fyw mor annibynnol â phosibl. Amcangyfrifir bod Cefnogi Pobl yn cefnogi 67,000 o bobl bob blwyddyn trwy ddarparu cynlluniau llety â chymorth a chymorth tenantiaeth.³ Yn dilyn cyflwyno Deddf Tai (Cymru) 2014, symudodd ffocws Cefnogi Pobl tuag at atal ac ymyrraeth gynnar, gyda'r nod o leihau'r galw am wasanaethau mwy costus fel gofal iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a'r system gyfiawnder. Yn nodedig, er bod Cefnogi Pobl wedi'i gyflwyno ar draws holl genhedloedd datganoledig y DU, mae'r elfen neilltuedig wedi'i dileu yn Lloegr a'r Alban.⁴ Derbyniodd y rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghymru oddeutu £124 miliwn yn 2018/19.

Grant Atal Digartrefedd

- 1.6 Yn ogystal â'r rhaglen Cefnogi Pobl, gall awdurdodau lleol hefyd gael gafael ar gyllid cymorth tai trwy'r Grant Atal Digartrefedd. Yn *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol* (2017),⁵ addawodd Llywodraeth Cymru "ddarparu ymyriadau cynharach a mwy effeithiol ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref". Felly mae cyllid Grant Atal Digartrefedd yn cael ei ddyrannu i ystod o brosiectau sy'n canolbwyntio ar atal ar draws awdurdodau lleol, sy'n mynd y tu hwnt i ddarpariaeth statudol. O'r gyllideb oddeutu £9 miliwn ar gyfer atal digartrefedd yng Nghymru yn 2018/19, mae'r Grant Atal Digartrefedd yn cynrychioli tua £3 miliwn, a fydd yn cael ei ddwyn i mewn i'r Grant Cymorth Tai newydd.⁶

Cyllid Gorfodi Rhentu Doeth Cymru

- 1.7 Mae Rhentu Doeth Cymru yn wasanaeth a gyflwynwyd yn 2015 i gynorthwyo gyda gweinyddu gofynion ar gyfer cofrestru landlordiaid a thrwyddedu asiantau a landlordiaid o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Nod trosfwaol Rhentu Doeth Cymru yw codi safonau rheoli yn y Sector Rhentu Preifat, trwy leihau nifer y landlordiaid ac asiantau nad ydynt yn cydymffurfio. Mae Rhentu Doeth Cymru yn cynrychioli cyllid ychwanegol a ddarperir ar gyfer camau gorfodi gan awdurdodau lleol yn erbyn landlordiaid ac asiantau nad ydynt yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol. Mae'r cyllid ar gyfer Rhentu Doeth Cymru yn cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol trwy fformiwla ddosbarthu sy'n adlewyrchu nifer yr unedau tai Sector Rhent Preifat ym mhob awdurdod lleol. Roedd y gyllideb ar gyfer gorfodi Rhentu Doeth Cymru oddeutu £0.3 miliwn yn 2018/19.

³ Archwilydd Cyffredinol Cymru (2017) [Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru](#).

⁴ Parliament UK (2012) [Supporting People Programme](#).

⁵ Llywodraeth Cymru (2017) [Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol](#).

⁶ Llywodraeth Cymru (2017) [Y Gyllideb Derfynol 2018 i 2019](#).

Adolygiad o'r llenyddiaeth

Datblygu fformiwla ariannu

Beth yw fformiwla ariannu?

- 2.1 Gellir diffinio fformiwlâu ariannu fel "rheolau mecanyddol i bennu'n rhagweithiol lefel yr arian cyhoeddus y dylai sefydliad datganoledig ei dderbyn ar gyfer darparu gwasanaeth cyhoeddus penodol".⁷ Mae'r math hwn o ddyraniad cyllid wedi dod yn un o'r dulliau pwysicaf ar gyfer dosbarthu adnoddau i wasanaethau cyhoeddus yn fyd-eang, gan gynnwys y DU - mae mathau eraill o gyllid yn cynnwys ad-dalu gwariant, dyraniad yn seiliedig ar gynsail hanesyddol, neu ansawdd y cynigion lleol.
- 2.2 Mae'r rhesymeg allweddol y tu ôl i ddefnyddio fformiwla ariannu yn cynnwys awydd llywodraethau cenedlaethol a lleol i reoli maint gwariant cyfanred, wrth sicrhau bod adnoddau cyhoeddus cyfyngedig yn cael eu rhannu mewn modd derbyniol a theg. Dadleuon o blaid defnyddio dosbarthiad fformiwla o adnoddau cyhoeddus yw:
- Effeithlonrwydd wrth ddyrannu adnoddau a chaniatáu ailgyfeirio cyllid cyhoeddus lle bydd yn sicrhau'r budd mwyaf;
 - Bod yn fecanwaith derbyniol ar gyfer pennu cyllidebau ar gyfer sefydliadau datganoledig;⁸ a
 - Galluogi datblygu cystadleuaeth rhwng darparwyr, a yrrir drwy wahanu'r prynwr a'r darparwr.
- 2.3 Nid yw fformiwlâu ariannu yn y DU yn newydd - gellir eu holrhain yn ôl i 1888 pan gynigiodd llywodraeth leol yn Lloegr 'tlodi dan do' fel dangosydd o angen gwariant.⁹ Un o'r fformiwlâu pwysicaf yn y wlad yw fformiwla Barnett a gyflwynwyd ym 1978 gan y Trysorlys - ac sy'n dal i gael ei defnyddio - er mwyn addasu lefel y cyllid a ddyrennir i genhedloedd datganoledig y DU (Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru). Defnyddir fformiwlâu ariannu i benderfynu ar ddyrannu adnoddau i nifer o wasanaethau gydag amcangyfrifon ceidwadol yn dangos bod tua £150 biliwn o arian cyhoeddus ar gyfer addysg uwch, llywodraeth leol, gofal cymdeithasol a gofal iechyd yn y DU yn cael ei ddosrannu drwy ddefnyddio dulliau seiliedig ar fformiwla.¹⁰

Prif egwyddorion arweiniol ar gyfer fformiwla ariannu

- 2.4 Mae consensws yn y llenyddiaeth bresennol y dylai fformiwlâu ariannu adlewyrchu rhai egwyddorion allweddol megis cywirdeb, tryloywder a thegwch. Yn ddiweddar, cynhaliodd y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) yn Llywodraeth y DU adolygiad o anghenion ac adnoddau cymharol awdurdodau lleol. Yn dilyn ymgynghori â nifer o awdurdodau lleol yn Lloegr, sefydlwyd yr egwyddorion arweiniol canlynol ar gyfer penderfynu ar fformiwlâu ariannu:¹¹
- **Symrlrwydd**– rhaid i'r fformiwlâu fod yn syml, heb gyfaddawdu ar egwyddorion arweiniol eraill megis cadernid a thryloywder y fformiwla;

⁷ Smith, P (2006) [Formula funding of public services](#).

⁸ Osborne and Gaebler (1992) [Reinventing Government](#)

⁹ Bennett, R (1982), Central Grants to Local Governments, Cambridge, Cambridge University Press.

¹⁰ Smith, P (2006) [Formula funding of public services](#)

¹¹ Ministry of Housing, Communities & Local Government (2018) [A review of local authorities' relative needs and resources](#)

- **Tryloywder** – rhaid i'r rhai sy'n derbyn cyllid allu nodi gywyr allweddol y dyraniad cyllid fel y gellir dwyn y rhai sy'n penderfynu dyraniad cyllid i gyfrif;
- **Cyfoes** – rhaid i fformiwlâu ariannu fod yn seiliedig ar y data mwyaf cyfredol posibl, gyda'r data sy'n sail i yrwyr allweddol y fformiwlâ ariannu yn cael ei ddiweddarau ar gyfnodau aml a chynlluniedig i'r graddau y mae hynny'n ymarferol;
- **Cynaliadwyedd** – rhaid i fformiwlâu ariannu ystyried y 'darlun ehangach' mewn perthynas ag arian cyhoeddus h.y. dylai'r fformiwlâ ariannu adlewyrchu lefel gyffredinol yr adnoddau sydd ar gael i awdurdodau lleol a blaenoriaethau cymharol gwahanol feysydd polisi. At hynny, i'r graddau y mae hynny'n bosibl, rhaid i fformiwlâu ariannu hefyd ystyried unrhyw newidiadau yn y galw am wasanaethau yn y dyfodol a allai ddylanwadu ar sylfaen gostau pob awdurdod lleol (e.e. y gwasanaethau hynny y mae eu newid yn cael ei bennu gan newid demograffig);
- **Cadernid** – rhaid i'r fethodoleg sy'n sail i'r fformiwlâ fod yn seiliedig ar ddadansoddiad gwrthrychol sy'n caniatáu i lunwyr polisi wirio'n synhwyrol y dyraniadau cyllid arfaethedig. Rhaid i ffynonellau data fod yn annibynnol eu natur i sicrhau eu bod yn gadarn i unrhyw agendâu neu driniaeth wleidyddol; a
- **Sefydlogrwydd** – dylai'r fformiwlâ gefnogi dyraniadau tymor hir rhagweladwy, gan feithrin teimlad o sicrwydd ariannol ymhlith buddiolwyr. Yn ddelfrydol, dylai fformiwlâu ariannu felly gynnwys setliadau aml-flwyddyn.

2.5 Yn ychwanegol at yr egwyddorion arweiniol a amlygwyd uchod, amlygodd adroddiad¹² i'r Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru'r angen i sicrhau nad yw fformiwlâu ariannu yn darparu cymhellion gwrthnysig a allai arwain awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau gyda'r nod o warantu mynediad at ariannu uwch yn unig; yn y bôn, dylai fformiwlâu ariannu fod yn gadarn i "hapchwarae" y system. Ystyriaeth bosibl arall yw tegwch, gyda'r Education Law Center¹³ yn yr UD yn awgrymu mai tegwch yw egwyddor sylfaenol yr holl fformiwlâ sy'n seiliedig ar anghenion. Byddai fformiwlâu ariannu o'r fath angen strwythur sy'n gyrru cyllid cyhoeddus i'r rhai mwyaf anghenus mewn cymdeithas.

Mathau o fformiwlâu ariannu seiliedig ar angen

2.6 Fformiwlâu ariannu ar sail anghenion yw un o'r mathau mwyaf cyffredin o bennu dyraniad adnoddau cyhoeddus. Mae fformiwlâu ariannu o'r fath yn adlewyrchu ffactorau sy'n pennu lefel yr angen ym mhob awdurdod lleol, ac felly'n mynd y tu hwnt i ddarpariaeth hanesyddol gwasanaethau. Fodd bynnag, mae mesur angen yn ymgymeriad cymhleth o ystyried yr amrywiaeth eang a chymhleth o ffactorau sy'n gyrru'r angen am wasanaethau cyhoeddus a'r costau sy'n sail i'r gwasanaethau hynny mewn gwahanol feysydd. Yn benodol, yr heriau allweddol wrth ddylunio fformiwlâu ariannu ar sail anghenion yw:

- nodi dangosyddion penodol sy'n mesur angen, sydd i'w cynnwys yn y fformiwlâ, a
- y pwysau sydd i'w roi i bob un o'r dangosyddion hyn er mwyn adlewyrchu eu pwysigrwydd.

2.7 Mae heriau o'r fath yn tarddu oherwydd yn aml mae diffyg data dibynadwy ac amserol ar newidynnau allweddol, tra bo hefyd angen ynysu ffactorau pwysig oddi wrth ffactorau nad ydynt yn bwysig wrth bennu lefel yr angen (h.y. wrth nodi pa rai yw gwir

¹² The Independent Commission on Funding and Finance in Wales (2011) [The use of needs-based formulas in the allocation of public resources: literature review](#).

¹³ Education Law Center (2013) [What Pennsylvania Can Learn From Other States' Education Funding Formulas](#)

yrwyr angen, rhaid sefydlu achosiaeth). Yn ogystal, o ystyried y cwrpas ar gyfer buddiannau sy'n gwrthdaro rhwng llywodraethau lleol, awdurdodau lleol a'r llywodraeth genedlaethol, mae'n bosibl y bydd anawsterau wrth nodi fformiwla ariannu sy'n wrthrychol ac yn gadarn.

- 2.8 Yn fras, mae dau fath o fformiwlâu ariannu ar sail anghenion: sef dull fesul pen a'r dulliau 'cymhleth'.

Dull fesul pen

- 2.9 Mae'r dull fesul pen yn ddull fformiwla ariannu a ddefnyddir yn gyffredin. Mantais dull o'r fath yw bod yn syml a thryloyw a gall hyd yn oed fod yn ddirprwy gweddus ar gyfer lefel yr angen mewn rhai achosion. Fodd bynnag, gall cyllid y pen fod yn amhriodol lle mae'r ffactorau sy'n gyrru angen yn fwy cymhleth; er enghraifft, oherwydd mwy o wasgariad poblogaeth mewn ardaloedd gwledig o'i gymharu ag ardaloedd trefol, byddai'r dull fesul pen yn debygol o fod yn fformiwla ariannu anaddas ar gyfer seilwaith ffyrdd, o ystyried y sylfaen costau uwch debygol (e.e. adeiladu a chynnal rhwydwaith ffyrdd mwy helaeth), a'r angen mwy am seilwaith ffyrdd i gymunedau gwledig (e.e. oherwydd diffyg dewisiadau amgen dichonadwy fel cerdded, beicio neu metro). Mae'r dull ariannu fesul pen yn rhan sylweddol o fformiwla ariannu Barnett.

Dulliau cymhleth

- 2.10 O ystyried bod llywodraethau cenedlaethol a lleol yn gyfrifol am nifer eang o wasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu pennu gan wahanol yrwyr costau, mae llawer o wledydd wedi mabwysiadu fformiwlâu cymhleth i allu dyrannu arian cyhoeddus yn gywir ar sail lefel yr angen. Mae dulliau cymhleth o'r fath yn cynnwys:¹⁴
- **Dull cost safonol:** Mae'r dull hwn yn pennu cyfanswm y gwariant trwy nodi a phennu pwysau i yrwyr sy'n cyfrif am amrywiadau mewn angen a chost;
 - **Atchweliad gwariant:** Defnyddir y dull hwn yn helaeth yn y DU ac mae'n debyg iawn i'r dull costau safonol, a'r unig wahaniaeth yw bod y pwysau a ddefnyddir ar gyfer pob dangosydd yn cael eu pennu gan ddadansoddiad atchweliad; a
 - **Dull yn seiliedig ar ganlyniadau:** Mae'r math hwn o fformiwla yn broses gyllidebol sy'n gwneud penderfyniadau dyrannu adnoddau a rheoli yn seiliedig ar effaith y gwariant e.e. mae lefel y cyllid a ddyrennir yn anelu at gyflawni canlyniad penodol fel lefel cyrhaeddiad addysgol neu ostyngiad mewn digartrefedd. Roedd trefniadau o'r fath ar waith yn yr Alban yn ogystal ag yn Lloegr o dan faner Cytundebau Ardal Leol (LAA) lle'r oedd yn rhaid i awdurdodau lleol sicrhau canlyniadau cytunedig.¹⁵
- 2.11 Mae Fformiwla Ariannu Genedlaethol (NFF) arfaethedig Llywodraeth y DU, i'w gweithredu fel y prif ddull ar gyfer dyrannu cyllid i ysgolion yn Lloegr, yn enghraifft o fformiwla ariannu gymhleth. Ei nod yw dosbarthu cyllid ar sail cerdyn sgorio wedi'i bwysoli o ffactorau gan gynnwys niferoedd disgyblion, mesurau amddifadedd, hanes cyrhaeddiad addysgol a mesurau prinder poblogaeth. Mae'r fformiwla hefyd yn destun i isafswm o gyllid fesul disgybl.

¹⁴ The Independent Commission on Funding and Finance in Wales (2011) [The use of needs-based formulas in the allocation of public resources: literature review](#).

¹⁵ Bramley, G., Watkins, D., & Karley, K (2009) [An outcome-based resource allocation model for local education services in Wales](#).

Gyrwyr costau

- 2.12 Yn ôl Adolygiad Ariannu Teg MHCLG (2018),¹⁶ nodwyd sawl ffactor gan awdurdodau lleol yn Lloegr sy'n bennaf gyfrifol am yrru cost ac sy'n briodol ar gyfer gwerthuso angen cymharol ar draws nifer o wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys cefnogaeth i'r digartref. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys:
- **Poblogaeth** – Roedd 90% o ymatebwyr yr adolygiad yn cytuno â defnyddio amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer yr asesiad anghenion cymharol. Yn ogystal â rhagamcanu preswylwyr parhaol, soniodd rhai ymatebwyr hefyd am yr angen i ffactora i mewn fesurau o'r boblogaeth dros dro (e.e. myfyrwyr, twristiaid) a fydd hefyd yn cael effaith ar lefel ofynnol darpariaeth gwasanaeth awdurdod lleol;
 - **Amddifadedd** – Dadleuodd 86% o ymatebwyr adolygiad MHCLG fod angen ystyried amddifadedd wrth ddylunio fformiwlâu cymharol yn seiliedig ar anghenion. Cytunodd 82% o'r ymatebwyr y byddai'r Mynegai Amddifadedd Lluosog (IMD), mynegai wedi'i bwysoli o ddangosyddion amddifadedd, yn fesur priodol i adlewyrchu amddifadedd mewn fformiwla ariannu; a
 - **Gwledigrwydd** - Honnodd 63% o'r ymatebwyr fod gwledigrwydd yn ffactor pwysig yn yr asesiad anghenion cymharol fel gyrrwr cost cyffredin. Fodd bynnag, roedd 40% o'r ymatebwyr hefyd yn teimlo bod gwledigrwydd naill ai'n amhriodol neu fod angen mwy o dystiolaeth i gefnogi'r achos dros gynnwys gwledigrwydd mewn asesiad o anghenion.
- 2.13 Fel y disgrifiodd un ymatebydd awdurdod lleol o Loegr : '[Rydym] yn wynebu costau tai uchel i staff a thrigolion, ac mae lefel ddigartrefedd yn cynyddu. Mae hyn wedi arwain at wariant cynyddol; yn benodol ar gyflawni ein rhwymedigaethau digartrefedd. Nid yw mesurau craidd poblogaeth, gwledigrwydd ac amddifadedd yn mynd i'r afael â hyn yn uniongyrchol ac efallai y gallai dangosydd o gostau tai eu hategu.'

Trefniadau pontio

- 2.14 Mae cyflwyno fformiwla ariannu newydd yn debygol o arwain at newidiadau i lefel y cyllid y mae awdurdodau lleol unigol yn ei dderbyn. Tra bydd rhai awdurdodau lleol yn gweld eu derbyniadau'n cynyddu, gall eraill brofi toriadau a all o bosibl ansefydlogi darpariaeth gwasanaethau, gan gael effaith negyddol gref yn y pen draw ar fuddiolwyr. Am y rheswm hwn, mae'r llenyddiaeth yn awgrymu ei bod yn bwysig cyflwyno trefniadau pontio a fydd yn sicrhau bod fformiwla ddosbarthu newydd yn cael ei chyflwyno'n llyfn.
- 2.15 Yr her allweddol wrth lansio fformiwla newydd yw sicrhau nad yw effeithlonrwydd yn peryglu sefydlogrwydd a sicrwydd ariannol. Er yn ddelfrydol y byddai pob awdurdod lleol yn cyrraedd ei darged dyrannu cyllid newydd cyn gynted â phosibl, mae'r un mor bwysig ystyried y gallai newid sydyn fygwth ansawdd y ddarpariaeth gwasanaeth cyhoeddus yn ogystal â rhoi cynaliadwyedd ariannol rhai awdurdodau lleol o bosibl mewn perygl.
- 2.16 Mae *A review of local authorities' relative needs and resources* (2018) yr MHCLG yn amlinellu'r set ganlynol o egwyddorion y bwriada Llywodraeth y DU eu defnyddio wrth strwythuro trefniadau pontio:
- **Sefydlogrwydd** – rhaid i'r newidiadau arfaethedig yn y dyraniad cyllid fod yn hylaw,

¹⁶ Ministry of Housing, Communities and Local Government (2018) [Fair Funding Review: a review of relative needs and resources](#).

o ystyried yr adnoddau sydd ar gael, a diogelu cynaliadwyedd trwy ystyried y 'darlun ehangach' y mae awdurdodau lleol yn gweithredu ynddo. Er mwyn cadw cynaliadwyedd, mae gan lawer o fformiwlâu 'fecanwaith lleddfu' sydd, er yn gwarantu toriad uchaf mewn cyllid, hefyd yn cyflwyno toriadau cyllidebol dros nifer o flynyddoedd er mwyn cyfyngu ar raddfa'r aflonyddwch mewn perthynas â darparu gwasanaethau mewn unrhyw flwyddyn benodol;¹⁷

- **Tryloywder** – dylai fod dealltwriaeth o'r rhesymeg dros fabwysiadu fformiwla ariannu newydd ymhlith rhanddeiliaid a buddiolwyr, yn ogystal ag ymgynghoriad ar yr ysgogwyr costau allweddol i'w cynnwys yn y fformiwla;
- **Hyblygrwydd** – gallai cyflwyno egwyl amser, lle byddai gan awdurdodau lleol yr hyblygrwydd i addasu i'r fformiwla ariannu newydd, yn helpu awdurdodau lleol i leihau unrhyw darfu ar ddarpariaeth gwasanaeth a rheoli goblygiadau ariannol cyllideb sy'n newid yn well. O ystyried amgylchiadau lleol ac ariannol amrywiol gwahanol awdurdodau lleol, gallai hyblygrwydd fod yn fwy ffafriol i rai nag eraill; a
- **Cefnogaeth â therfyn amser** - gellid darparu cefnogaeth i'r awdurdodau lleol sydd ar fin profi'r toriadau mwyaf yn y gyllideb o dan y fformiwla newydd. O ystyried effaith ansefydlogi'r broses o gyflwyno fformiwla Aylward, efallai y byddai'n werth ystyried darparu cymorth ariannol ychwanegol i rai awdurdodau lleol am gyfnod cyfyngedig o amser.

Enghreifftiau o fformiwlâu ariannu

Gwersi a ddysgwyr o fformiwla Aylward

- 2.17 Cefnogi Pobl yw'r brif ffynhonnell gyllid ar gyfer atal a lleddfu digartrefedd yng Nghymru. Yn 2009, comisiynodd Llywodraeth Cymru'r adolygiad cyntaf o'r rhaglen Cefnogi Pobl i fesur cynnydd y rhaglen Cefnogi Pobl yn erbyn ei hamcanion trosfwaol. Daeth Adolygiad Aylward, a gynhaliwyd yn 2010, i'r casgliad bod Cefnogi Pobl yn darparu cefnogaeth sylweddol o ran lliniaru ac atal digartrefedd a chynigiodd y dylid parhau â'r rhaglen. Fodd bynnag, amlygodd yr adolygiad hefyd yr angen am newidiadau wrth ddarparu a monitro'r rhaglen.
- 2.18 Yn seiliedig ar yr adolygiad, cyflwynodd Llywodraeth Cymru fformiwla ariannu newydd ar gyfer 2012/13 a 2013/14 gyda'r nod o ailddosbarthu cyllid i'r ardaloedd â'r angen mwyaf. Gellir crynhoi'r fformiwla ariannu a gynigiwyd yn yr 'Adolygiad Aylward' fel a ganlyn, gan gynnwys y gyrrwyr economaidd-gymdeithasol a demograffig perthnasol a'u cyfraniadau wedi'u pwysoli i'r dyraniad (mewn termau canrannol):
- Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (20%);
 - Mynegai Darnio Cymdeithasol (20%);
 - Nifer y bobl sy'n derbyn o leiaf cyfradd ganol cydran gofal Lwfans Byw i'r Anabl (10%);
 - Strwythur oedran y boblogaeth (cyfran y bobl hŷn sy'n byw ar eu pennau eu hunain) (20%); a
 - Mesurau lleol pobl ddigartref (30%).

¹⁷ The Independent Commission on Funding and Finance in Wales (2011) [The use of needs-based formulas in the allocation of public resources: literature review.](#)

- 2.19 Fodd bynnag, wrth ddiwygio'r fformiwla ariannu ar yr un pryd â gweithredu toriadau cyllidebol (profodd y rhaglen doriad cyllideb o 1.3% mewn termau real rhwng 2014/15 a 2015/16), cafodd rhai awdurdodau lleol doriadau mawr, gyda goblygiadau negyddol i ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. Yn dilyn ceisiadau gan randdeiliaid allweddol, ataliodd Llywodraeth Cymru'r fformiwla yn 2015 gyda dyraniadau yn aros yn yr un cyfrannau mewn termau arian parod ag ar gyfer 2015/16 ers hynny.
- 2.20 Gall rhanddeiliaid allweddol ddysgu gwersi pwysig o feirniadaeth fformiwla Aylward. Y beirniadaethau allweddol ar y fformiwla yw:¹⁸
- Arweiniodd y fformiwla at doriadau ariannu mawr i rai awdurdodau lleol ond codiadau sylweddol i eraill. Er enghraifft, yn ôl adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru "Rhoglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru" a gyhoeddwyd yn 2017, profodd Cyngor Caerdydd ostyngiad o £0.8 miliwn yn y cyllid rhwng 2012/2013 a 2013/14 ar ôl gweithredu'r fformiwla newydd.¹⁹
 - Nid oedd cyflwyniad cychwynnol y fformiwla ariannu yn cynnwys unrhyw elfen bontio, a allai fod wedi sicrhau proses aildosbarthu esmwythach ac osgoi'r newidiadau sydyn i lefelau'r cyllid sydd ar gael, a allai yn y pen draw fod wedi helpu i warchod ansawdd y ddarpariaeth gwasanaeth yn yr awdurdodau lleol yr effeithiwyd arnynt waethaf.
 - Roedd diffyg data amserol, neu hyd yn oed fylchau data, mewn perthynas â rhai o'r newidynnau a gynhwysir yn y fformiwla ariannu.
 - Methodd y fformiwla ariannu â rhoi cyfrif am newidiadau mewn polisiâu, deddfwriaeth a diwygiadau lles mewn meysydd polisi perthnasol eraill ac felly nid oedd digon o ystyriaeth i'r darlun ehangach ar gyfer cyllid cyhoeddus.
 - Er y cyflwynwyd y fformiwla ariannu ar adeg o gyllidebau yn cynyddu, amserwyd ei weithrediad yn wael, oherwydd yn fuan ar ôl ei gyflwyno, arweiniodd pwysau ariannol a yrrir gan gyni at doriadau cyllid annisgwyl i'r holl awdurdodau lleol ac o ganlyniad gostyngodd y dyraniadau ariannu Cefnogi Pobl.

Fformiwla Ariannu Cefnogi Pobl yr Alban

- 2.21 Mae fformiwla ariannu'r Alban ar gyfer Cefnogi Pobl, a fabwysiadwyd rhwng 2005/6 a 2007/8, yn enghraifft o ddull ariannu ar sail anghenion. Canolbwyntiodd y fformiwla ariannu ar ddosbarthu arian i awdurdodau lleol yn seiliedig ar asesiad o angen ar draws cydgrynhoad o boblogaeth yr awdurdod lleol (h.y. ni chafwyd dadansoddiad yn ôl grŵp derbynwyr; er enghraifft, y rhai 65+ neu'r rheini sydd mewn perygl o fod yn ddigartref). Er yr ystyriwyd bod y dull hwn yn gymharol dryloyw a dealladwy, gan mai dim ond un fformiwla a ddefnyddiwyd ar draws yr holl ffrydiau ariannu, gellid ystyried bod y dull lefel cyfanredol yn brin o nawws o'i gymharu â senario lle mae fformiwlâu ariannu yn cael eu pennu ar wahân ar gyfer pob grŵp sy'n ei dderbyn, gan gynnwys set o fesurau anghenion a phwysladau sy'n briodol i bob grŵp.

Roedd y fformiwla ariannu yn cynnwys pedwar mesur o angen, gyda phwysiad penodol wedi'i gymhwyso i bob un:

- Poblogaeth dros 65 oed (30%),
- Nifer sy'n derbyn lwfans byw i'r anabl (20%),
- Ceisiadau digartrefedd - cyfartaledd tair blynedd (30%), a

¹⁸ Llywodraeth Cymru (2013) Grant Rhaglen Cefnogi Pobl - Canllawiau Cymru.

¹⁹ Archwilydd Cyffredinol Cymru (2017) [Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru](#).

- Poblogaeth yn y 15% gwaethaf o barthau data Mynegai Amddifadedd Lluosog yr Alban (SIMD) (20%).

- 2.22 Cyfrifwyd fformiwla ariannu Cefnogi Pobl ar gyfer pob awdurdod lleol trwy gyfrifo ar wahân yn gyntaf i bob mesur o angen yr arian sydd ar gael fesul person sy'n dod o dan bob categori mesur ledled yr Alban a defnyddio'r pwysau rhagnodedig. Roedd yr ail gam yn cynnwys lluosï'r canlyniad blaenorol â nifer y bobl sy'n dod o dan bob mesur o angen ym mhob awdurdod lleol.
- 2.23 Cafwyd mecanwaith 'lleddfu' i gyflwyno'r newid yn y dyraniad cyllid yn raddol ar draws awdurdodau lleol i gyd-fynd â chyflwyno'r fformiwla ariannu. Mae'r mecanwaith yn sicrhau y bydd y cyllid y mae pob awdurdod lleol yn ei dderbyn gan Gefnogi Pobl yn y flwyddyn gyntaf y fformiwla ariannu newydd (2005/6) ddim llai na 92.5% o gyllid Cefnogi Pobl y flwyddyn flaenorol - i bob pwrpas, yn cyfyngu i ba raddau y gellid torri cyllid yn y flwyddyn benodol honno. Defnyddiwyd addasiad tebyg (dim llai na 90% o'r flwyddyn flaenorol) y flwyddyn ganlynol.²⁰

Fformiwla Ariannu Setliad Llywodraeth Leol

- 2.24 Mae Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru yn cynnwys fformiwlâu ariannu ar gyfer 56 categori gwahanol o wariant, a elwir yn Asesiadau Seiliedig ar Ddangosyddion (IBAs). Mae IBAs yn cymhwyso pwysau i'r dangosyddion perthnasol ac fe'u cyhoeddir ochr yn ochr â'r dyraniadau cyllid sy'n deillio o hynny.
- 2.25 Un nodwedd nodedig o'r IBAs setliad presennol yw eu bod yn tueddu i fod yn gymharol syml a thryloyw. Mae'r rhan fwyaf o IBAs yn ystyried oddeutu 1-5 dangosydd yn eu hasesiad, er bod ychydig mwy o achosion yn cael eu defnyddio lle mae llawer mwy o ddangosyddion (fodd bynnag, mae hyn yn gyffredinol pan fydd grant yn cael ei gyflwyno i'r setliad ac mae'r dosbarthiad yn seiliedig ar gyfuniad o'r IBAs presennol). Mae'r cyfrifiad sy'n ofynnol ar gyfer pob IBA yn gymharol syml, gyda dyraniadau cyllid yn cael eu pennu ar sail lluosï'r set berthnasol o ddangosyddion â'u pwysïadau priodol.
- 2.26 Mae llawer o'r fformiwlâu setliad yn rhoi pwysïadau sylweddol ar ddata demograffig, sy'n ymddangos mewn 34 IBA, sy'n cynrychioli 74% o gyfanswm nifer yr IBAs ar ôl eithrio Asesiadau Gwariant Safonol (SSAs) anghyfredol ac arian a ddosberthir yn unol ag IBAs eraill. Mae categorïau cyffredin eraill o ddangosyddion yn cynnwys mesuriadau o amddifadedd, prinder poblogaeth (gwasgariad poblogaeth) ac amcangyfrifon penodol o lwyth achosion ar gyfer ffrydiau ariannu.

²⁰ LE Wales (2018) [Development of an Approach to Distributing Supporting People Monies to Local Authority Areas.](#)

Ymgysylltu rhanddeiliaid

Dull

- 3.1 Er mwyn sicrhau bod barn rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys cynrychiolwyr awdurdodau lleol a barn grwpiau ymbarél perthnasol, yn cael eu dal yn ddigonol mewn cynigion ar gyfer fformiwla ariannu newydd, cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau ymgynghori â rhanddeiliaid, gan gynnwys:
- **Cylch cyntaf o weithdai:** cynhaliwyd dau weithdy gydag awdurdodau lleol ym mis Gorffennaf, un yng Ngogledd Cymru ac un yn Ne Cymru. Canolbwyntiodd y gweithdai hyn ar faterion ariannu cyfredol, cyfleoedd yn y dyfodol ac unrhyw bryderon posibl. Roedd cynrychiolwyr o 19 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn bresennol.
 - **Arolwg ar-lein:** dosbarthwyd arolwg ar-lein i gasglu gwybodaeth feintiol ychwanegol yn dilyn y gweithdai cychwynnol ym mis Gorffennaf. Anfonwyd yr arolwg at bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru a derbyniwyd oddeutu 15 ymateb cyflawn (cyfradd ymateb 68%). Roedd yr ymatebion i gwestiynau unigol yn amrywio o ran ansawdd.
 - **Cyfweliadau:** cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig gyda chynrychiolwyr o amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys Cymdeithas Trysoryddion Cymru, Rhwydwaith Digartrefedd, Cymuned Tai Cymunedol, Cymorth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Yn ogystal, cyfwelwyd cynrychiolwyr yr holl Bwyllgorau Cydweithio Rhanbarthol (RCCs).
 - **Dogfennau:** yn ogystal â dulliau casglu sylfaenol, adolygwyd hefyd gynnwys nodiadau a dogfennau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a chyfranogwyr ymchwil eraill.
 - **Ail gylch o weithdai:** cynhaliwyd dau weithdy olaf gydag awdurdodau lleol ym mis Medi, eto gydag un yng Ngogledd Cymru ac un yn Ne Cymru. Canolbwyntiodd y gweithdai hyn ar y dull i'w ddefnyddio wrth ddatblygu fformiwla ariannu newydd (a amlinellir ym Mhennod 5 isod), rhai canlyniadau dangosol cynnar ynghylch lefel bosibl aildyrannu cyllid ymhlith awdurdodau lleol, a chyflymder y trawsnewid tuag at lefelau ariannu newydd.


Cyd-destun

- 3.2 Dro ar ôl tro trwy gydol y gweithgareddau ymgysylltu, mae rhanddeiliaid yn nodi bod rhaid i unrhyw newidiadau i'r status quo ystyried y cyd-destun ehangach y mae awdurdodau lleol yn gweithredu ynddo; sef, y dylai unrhyw newidiadau adlewyrchu'r amgylchedd polisi ehangach a phryderon cynaliadwyedd ariannol awdurdodau lleol. Roedd cyfranogwyr yn dymuno pwysleisio bod gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymorth tai wedi wynebu anawsterau digynsail yn ystod y blynyddoedd diwethaf oherwydd effaith cyllidebau cyfyngedig a newidiadau polisi eraill. Mae pwysau cyllidebol wedi gwneud cydbwysu blaenoriaethau cymorth yn fwy heriol dros amser. Nododd rhanddeiliaid ei bod yn bwysig gwerthuso fformiwla ariannu yng nghyd-destun yr hyn sy'n digwydd i lefel y ffrydiau ariannu cysylltiedig e.e. y Grant Cymorth Refeniw, y gronfa gofal integredig a'r grant plant a chymunedau.

Lefelau ariannu


- 3.3 Er ei fod y tu hwnt i gwmpas y prosiect cyfredol, roedd llawer o'r adborth a dderbyniwyd yn honni bod angen cyllid ychwanegol i gynnal ansawdd gwasanaeth ac ehangu'r ddarpariaeth y tu hwnt i wasanaethau statudol a thuag at wasanaethau ataliol; mae gan wasanaethau ataliol o'r fath gyfle i arbed costau yn y tymor hir. Mae cyllid enwol y rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghymru wedi cael ei rewi yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a disgrifiodd rhanddeiliaid yr ystod o heriau y mae hyn wedi'u hachosi, gan gynnwys mwy o bwysau ar wasanaethau a heriau staffio. Nododd llawer o awdurdodau lleol fod darparu gwasanaethau anstatudol wedi dod yn anoddach yn yr amgylchedd hwn.
- 3.4 Pan ofynnwyd pa gynnydd canrannol mewn cyllid fyddai ei angen bob blwyddyn am y tair blynedd diwethaf i gynnal ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan y rhaglen Cefnogi Pobl, yr ymateb mwyaf cyffredin oedd y byddai cynnydd o 3% y flwyddyn yn caniatáu i wasanaethau gadw i fyny â chwyddiant a chynnydd mewn costau cyflog, gyda bron i hanner y 13 ymatebydd (46%) yn dewis yr ateb hwn. Fodd bynnag, roedd 5 ymatebydd (39%) o'r farn y byddai'r cyllid gofynnol yn fwy na 3%, gyda 2 ymatebydd (15%) yn awgrymu bod angen cynnydd o dros 10%. Dim ond un ymatebydd a nododd nad oedd angen cynnydd yn y cyllid. Nodwyd bod darparwyr gwasanaeth mewn rhai awdurdodau lleol eisoes wedi gofyn am godiadau rhwng 2% a 5% ganddynt i dalu costau cyflenwi gwasanaeth uwch.

Siart 1. Amcangyfrif o'r cynnydd sydd ei angen bob blwyddyn am y tair blynedd diwethaf ar gyfer ariannu rhaglen Cefnogi Pobl i gynnal ansawdd gwasanaeth (canran yr ymatebwyr) n=15



- 3.5 Mae effaith pwysau cyllidebol ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol hefyd yn digwydd ochr yn ochr â'r cynnydd yn y galw am wasanaethau cymorth. Awgrymodd ychydig llai na thraean o'r 14 a ymatebodd i'r cwestiwn hwn fod angen cynnydd mewn cyllid o 10% o leiaf bob blwyddyn am dair blynedd i gadw i fyny â'r galw newydd am wasanaethau iechyd a chymdeithasol. Dim ond un ymatebydd a nododd nad oedd angen cynnydd yn y cyllid. Nododd ymatebydd arall y cyfeiriwyd at Gefnogi Pobl fel 'Ail Wasanaethau Cymdeithasol' oherwydd ei rôl yn darparu gwasanaethau i bobl agored i niwed, yn enwedig yn erbyn cefndir cyni cyllidol y degawd diwethaf.

Siart 2. Amcangyfrif o'r cynnydd sydd ei angen bob blwyddyn am y tair blynedd diwethaf ar gyfer ariannu rhaglen Cefnogi Pobl i wrthweithio effeithiau'r pwysau ar wariant iechyd a gofal cymdeithasol (canran yr ymatebwyr) n=15



Penderfyniadau yn yr arfaeth

- 3.6 Yn ogystal, nodwyd bod gan Lywodraeth Cymru brosiectau dadansoddol parhaus a allai fod wedi effeithio ar gyflenwi Cefnogi Pobl ac o ganlyniad, y fformiwla ariannu a ystyrir yn yr adroddiad. Yn benodol, amlygwyd canlyniadau anabledd dysgu Llywodraeth Cymru²¹ gan randdeiliaid fel canfyddiadau i'w hystyried; roedd pryder, os gweithredir fformiwla ariannu ar gyfer Cefnogi Pobl cyn cwblhau'r adolygiad o'r fformiwla ar gyfer cyllid anabledd dysgu, y gallai ddod yn ddarfodedig yn gyflym, tra'n disgwyl am ganfyddiadau'r adolygiad olaf. Mae prosiectau cysylltiedig eraill a allai ddylanwadu yn cynnwys adolygu gwasanaethau mewn llety ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Egwyddorion y fformiwla ariannu

- 3.7 Daeth sawl thema gyffredin i'r amlwg o'r trafodaethau â rhanddeiliaid ynghylch y cynhwysion sy'n ofynnol ar gyfer fformiwla ariannu lwyddiannus. Mae nodweddion fformiwla ariannu effeithiol yn cynnwys:
- **Yn seiliedig ar angen:** nododd rhai rhanddeiliaid mai'r allwedd i sicrhau dyraniad teg o gyllid yw datblygu fformiwla ariannu sy'n adlewyrchu anghenion ei dderbynwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Awgrymwyd archwilio cynlluniau gwariant cyfredol Cefnogi Pobl a rhai i'r dyfodol fel dull o fesur y gofynion anghenion.
 - **Tegwch:** roedd consensws ymhlith rhanddeiliaid na ddylai'r fformiwla ariannu ffafrio grŵp neu ardal sy'n ei dderbyn yn ormodol. Fodd bynnag, nodwyd bod tegwch yn gysyniad heriol i'w farnu'n wrthrychol. Awgrymodd rhanddeiliaid na ddylai'r fformiwla ariannu greu cymhellion gwrthnysig na chosbi awdurdodau lleol â gwasanaethau arbennig o effeithiol (e.e. gall fod gan ardaloedd â rhaglenni atal da niferoedd is o bobl ar bwynt argyfwng). Roedd yn bwysig i'r cyfranogwyr na allai'r fformiwla gael ei 'herio'n' annheg gan awdurdodau lleol i dderbyn mwy o ddyraniadau cyllid.

²¹ Mae'r gwaith hwn bellach wedi'i gwblhau: [Deall cyllid awdurdodau lleol ar gyfer cymorth llety anableddau dysgu ledled Cymru](#)

- **Tryloywder / symlrwydd:** roedd yn bwysig i'r mwyafrif o randdeiliaid bod fformiwla ariannu yn dryloyw ac yn gymharol hawdd ei deall. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o awgrym yn y safbwynt hwn, gyda rhai awdurdodau lleol yn barod i dderbyn fformiwla fwy cymhleth os oeddent yn teimlo ei bod yn cynyddu tegwch y dyraniadau cyllid.
- **Sefydlogrwydd:** awgrymodd rhanddeiliaid fod rhaid i fformiwla ariannu effeithiol allu dyrannu cyllid yn gywir ac yn gyson dros y tymor canolog. Gwnaeth rhanddeiliaid y sylw y byddai newidiadau dramatig mewn cyllid yn tanseilio caffael a chynllunio tymor hir.
- **Hyblygrwydd:** ystyriaeth allweddol rhanddeiliaid wrth drosglwyddo i Grant Cymorth Tai o dair ffrwd ariannu ar wahân, yw gwella hyblygrwydd awdurdodau lleol i fod yn ymatebol wrth ddarparu eu gwasanaeth.
- **Diogelu i'r dyfodol:** nododd rhanddeiliaid y dylid cael mecanweithiau ar waith i sicrhau bod y fformiwla ariannu yn gadarn i unrhyw newidiadau yn y dyfodol (e.e. tueddiadau demograffig sy'n dod i'r amlwg). Awgrymwyd y gallai diogelu i'r dyfodol gynnwys dyddiadau adolygu sefydlog ar gyfer y fformiwla neu fethodoleg i ffactoreiddio i mewn unrhyw dueddiadau sy'n datblygu.
- **Cadarn a gwrthrychol:** roedd rhanddeiliaid o'r farn y dylai'r fethodoleg sy'n sail i'r fformiwla ariannu fod yn ddadansoddol gadarn ac yn seiliedig ar egwyddorion arfer gorau. Awgrymwyd y dylid dysgu gwersi o ddiffygion enghreifftiau perthnasol blaenorol o ddyrannu cyllid. Yn ogystal, dylai'r data a ddefnyddir mewn fformiwla ariannu fod o ansawdd uchel; dylid osgoi data sy'n oddrychol neu'n cael ei adrodd yn anghyson (e.e. rhywfaint o ddata canlyniadau'r rhaglen Cefnogi Pobl).
- **Yn ymwybodol o'r cyd-destun:** honnwyd gan randdeiliaid y dylai'r fformiwla ariannu gael ei chysylltu'n glir â phwmpas trosfwaol y Grant Cymorth Tai, yn ogystal ag ystyried amcanion ehangach a chynaliadwyedd ariannol awdurdodau lleol.

Trefniadau Pontio

- 3.8 Mewn gwaith maes gyda rhanddeiliaid, ystyriwyd bod trefniadau pontio priodol yn sylfaenol i lwyddiant symud i'r Grant Cymorth Tai. Fodd bynnag, nododd rhanddeiliaid y byddai'r trefniadau pontio sy'n ofynnol yn dibynnu i raddau helaeth ar faint o newid a geid i lefel y cyllid - os yw lefel y newid yn gyfyngedig, teimlwyd y gellid trosglwyddo'n gyflymach gyda llai o ddiogelwch, ond byddai cynnydd neu ostyngiadau mawr angen pontio mwy llyfn. Derbyniodd y cyfranogwyr yn gyffredinol y gallai fod 'enillwyr a chollwyr' o weithredu fformiwla ariannu newydd, ond teimlwyd hefyd y byddai pontio a reolir yn dda yn darparu ar gyfer cyflwyno unrhyw newidiadau yn raddol er mwyn cadw ansawdd darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus a lleihau rhwystrau gweinyddol i'r eithaf.

Cyfnod pontio


- 3.9 Gofynnwyd i randdeiliaid beth oeddent yn credu fyddai'r amserlen ddelfrydol ar gyfer trosglwyddo i fformiwla ariannu Grant Cymorth Tai newydd, gyda sbectwm o ymatebion yn cael eu derbyn yn amrywio o flwyddyn i fwy na saith mlynedd. Y pryderon allweddol a godwyd gan randdeiliaid mewn perthynas ag amser pontio oedd:
- **Ymrwmiadau cytundebol presennol:** yn aml mae gan awdurdodau lleol gontractau aml-flwyddyn gyda darparwyr gwasanaeth sydd fel rheol yn cynnwys opsiynau amrywio neu gymalau torri. Fodd bynnag, nodwyd y gall fod yn gostus ac yn aflonyddgar torri neu amrywio contractau o'r fath hyd yn oed os oes mecanwaith cytundebol yn bodoli. Nododd rhanddeiliaid y byddai'r amser pontio dynodedig yn

cyd-fynd â chylchoedd caffael, er y gall cylchoedd o'r fath amrywio ar draws awdurdodau lleol.

- **Parhad darpariaeth gwasanaeth:** mae cynnal darpariaeth gwasanaeth o ansawdd uchel i ddefnyddwyr yn flaenoriaeth i randdeiliaid. Awgrymwyd y dylai'r amser pontio fod yn ddigonol i sicrhau nad yw gwasanaethau cymorth yn cael eu tarfu'n ddifrifol ac nad yw rhai pobl yn 'disgyn i'r bylchau'.
- **Amser arweiniol polisi:** gall comisiynu newidiadau ar gyfer gwasanaethau tai â chymorth (h.y. llety â chymorth) gymryd amser yn dibynnu ar ble a sut y ceir yr eiddo. Awgrymwyd y gall gymryd tair blynedd neu fwy i ddatblygu cynllun newydd o'r dechrau i'r tenantiaid cyntaf yn symud i mewn, a dylai cyfnodau pontio ffactora i mewn amseroedd arwain o'r fath.


3.10 Gofynnodd yr arolwg ar-lein gyfres o gwestiynau gyda'r nod o bennu'r cyfnod pontio gorau posibl yn seiliedig ar lefel unrhyw gynnydd neu ostyngiad mewn cyllid. Fel y dangosir yn Siart 3, ar gyfer codiadau ariannu llai o rhwng 1% a 5%, roedd pob un o'r 15 ymatebydd awdurdod lleol yn disgwyl y gellid addasu'r newid i rhwng blwyddyn a dwy flynedd. Fodd bynnag, ar gyfer codiadau mwy o uwch na 5%, roedd y gymysgedd o ofynion amser yn sylweddol fwy amrywiol, gyda'r rhai a oedd yn disgwyl gallu addasu i'r lefel ariannu uwch mewn blwyddyn neu ddwy yn gostwng gyda lefel y cynnydd mewn cyllid. Roedd un rhan o bump o'r awdurdodau lleol a arolygwyd (3 o 15) yn disgwyl bod angen o leiaf pedair blynedd arnynt i addasu i gynnydd o 20% mewn cyllid, tra bod tua hanner (8 o 15) yn disgwyl bod angen dwy flynedd neu lai i addasu i'r yr un lefel o gynnydd.

Siart 3. Yr amser sydd ei angen i weithredu cynnydd yng nghyllid Cefnogi Pobl (Canran yr ymatebwyr) n=15




3.11 Yn nodedig, amcangyfrifodd yr awdurdodau lleol cyfranogol y byddai gostyngiadau mewn cyllid yn cymryd llawer mwy o amser i'w gweithredu na chynnydd cyllid cyfatebol, gyda disgwyl y byddai hyd yn oed y toriadau llai mewn cyllid o rhwng 1% a 5% yn cymryd rhwng blwyddyn a thair blynedd i addasu iddynt (gweler Siart 4). Roedd yr holl awdurdodau lleol a arolygwyd yn disgwyl y byddai toriadau cyllid o 10% yn cymryd o leiaf 2 flynedd i'w gweithredu, gyda 47% o'r ymatebwyr yn disgwyl i'r gweithredu gymryd cryn dipyn yn hirach, sef 5 mlynedd neu fwy.

Siart 4. Yr amser sydd ei angen i weithredu gostyngiad yng nghyllid Cefnogi Pobl (Canran yr ymatebwyr) n=15



- 3.12 Mae Siart 5 yn cyflwyno'n fanylach yr amser disgwyliedig sy'n ofynnol gan y 15 awdurdod lleol a arolygwyd i weithredu gostyngiad o 20% yn y cyllid Cefnogi Pobl. Roedd sbectrwm eang o amseroedd arwain gweithredu disgwyliedig nag ar gyfer toriadau llai mewn cyllid, gydag amcangyfrifon yn amrywio ymysg ymatebwyr o dair i ddeng mlynedd. Credai 67% o ymatebwyr awdurdodau lleol y byddai angen pum mlynedd neu fwy i baratoi ar gyfer y cwmpw mewn cyllid, tra bod 33% yn disgwyl i'r gweithredu gymryd rhwng tair a phedair blynedd.

Siart 5. Yr amser sydd ei angen i weithredu gostyngiad o 20% yng nghyllid Cefnogi Pobl (Canran yr ymatebwyr) n=15



Rhannu gwybodaeth a meithrin gallu

- 3.13 Ar ôl siarad â RCCs, daeth yn amlwg bod rhwydweithiau cryf ar hyn o bryd i rannu arfer gorau a gwybodaeth ar draws timau ymarfer awdurdodau lleol ar draws y tri chynllun grant presennol. Nododd cyfweleion y bydd yn bwysig cynnwys yr holl dimau perthnasol yn y rhwydweithiau hyn wrth symud ymlaen, ac mae rhai RCCs eisoes wedi dechrau nodi'r rhain er mwyn paratoi ar gyfer y pontio.
- 3.14 Pryder a godwyd gan ychydig o randdeiliaid oedd yr amrywiad mewn gallu monitro a gwerthuso ar draws y timau sy'n cefnogi'r tair ffrwd ariannu wahanol. Nodwyd bod gan Gefnogi Pobl strwythur adrodd clir ond bod gan rai o'r grantiau eraill ofynion adrodd llai caeth. Nodwyd y gellid gwella gallu'r timau i weithio gyda'i gilydd.

Cyfathrebu

- 3.15 Teimlai llawer o'r rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy y byddai angen cyfathrebu clir ac amserol oddi wrth Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol a'r cyhoedd yn ehangach i hwyluso'r broses. Yn benodol, ystyriwyd ei bod yn bwysig bod canllawiau sy'n ymwneud â'r Grant Cymorth Tai yn ymdrin yn glir ag unrhyw bryderon sydd gan bobl (e.e. sut mae'r Grant Cymorth Tai yn cyd-fynd â strategaeth ddigartrefedd Llywodraeth Cymru, materion yn ymwneud â chymhwyster i gael cyllid). Roedd rhai rhanddeiliaid yn poeni y gallai unrhyw newidiadau a weithredir greu dryswch i ddefnyddwyr gwasanaeth, a fyddai yn ei dro yn rhoi pwysau staffio ychwanegol ar awdurdodau lleol. Ystyriwyd ei bod yn bwysig bod defnyddwyr gwasanaeth hefyd yn cael gwybod am newidiadau yn y ddarpariaeth gwasanaethau, tra'n ystyried yr amrywiadau a allai ddigwydd ar lefel gweithredu.

Strategaethau Pontio Arfaethedig


- 3.16 Yn y gweithdai a'r cyfweiliadau, awgrymwyd amrywiol strategaethau gan randdeiliaid i helpu i hwyluso'r broses o drosglwyddo i'r Grant Cymorth Tai newydd, gan gynnwys:
- **Pontio cynyddrannol:** lleisiodd llawer o randdeiliaid eu bod yn ffafrio dull graddol dros gyfnod hir i helpu gwasanaethau i addasu i unrhyw newidiadau i lefelau cyllid. Yn gyffredinol, roedd yn well gan randdeiliaid newidiadau cynyddrannol blynyddol gan adeiladu hyd at lefel ariannu targed. Fodd bynnag, awgrymwyd y gallai'r swm a ddyrannwyd trwy ddefnyddio'r fformiwla ariannu newid dros amser i hwyluso'r pontio - er enghraifft, yn y flwyddyn gyntaf gallai'r mecanwaith ariannu aros yr un fath heblaw am gyfran fach o'r cyllid yn cael ei ailddyrannu gan ddefnyddio'r fformiwla newydd, gyda'r gyfran a ail-ddyrannwyd yn tyfu dros amser a'r mecanwaith ariannu presennol yn cael ei ddiddymu'n raddol.
 - **Ariannu grant trosiannol:** nodwyd y byddai adnoddau ariannol ychwanegol yn ddefnyddiol wrth sefydlu neu ailstrwythuro mecanweithiau gweithredu ac adrodd ar gyfer y Grant Cymorth Tai. Credwyd petai gynnydd neu ostyngiad sylweddol mewn lefelau ariannu, y byddai'r gost o weinyddu yn debygol o gynyddu.
 - **Capio newidiadau:** nododd rhai rhanddeiliaid fod gan rai fformiwlâu ariannu, fel Fformiwla Dyrannu'r Heddlu, broses i gyfyngu ar y cynnydd neu'r gostyngiad canrannol mewn unrhyw flwyddyn benodol.
 - **Hyblygrwydd i gyflwyno fesul cam:** opsiwn arall a gynigiwyd gan randdeiliaid yw rhoi'r opsiwn i awdurdodau lleol gyflwyno'r fformiwla mewn modd sy'n gweddu i'w cynlluniau strategol unigol, o fewn cyfnod a ddiffiniwyd ymlaen llaw.
 - **Cyllidebau dangosol:** nodwyd y byddai'n helpu awdurdodau lleol i gynllunio ar gyfer y dyfodol pe gallai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllidebau dangosol sy'n

edrych i'r dyfodol.

Newidiadau yn y Galw gan Gleientiaid


- 3.17 Un mater allweddol i ddiogelu'r fformiwla ariannu yn y dyfodol yw rhagamcanu'n gywir sut y gall y galw am wasanaethau cymorth newid. Yn yr arolwg ar-lein gofynnwyd i'r ymatebwyr raddio'r pum grŵp defnyddwyr uchaf y maent yn disgwyl iddynt brofi gwariant cynyddol fesul defnyddiwr dros y pum mlynedd nesaf. Derbyniwyd 15 ymateb ond ni ddefnyddiodd pob ymatebydd yr holl safle rheng o un i bump, felly dim ond 64 safle rheng a dderbyniwyd (sy'n cyfateb i 4.3 yr ymatebydd allan o uchafswm o 5). Mae'r canlyniadau'n awgrymu bod disgwyl i bobl â phroblemau iechyd meddwl brofi'r cynnydd mwyaf yn y galw am wasanaethau cymorth, gyda 19% o'r ymatebion (12 allan o 64 o opsiynau a restrwyd) yn gosod hwn yn eu pump uchaf, ac 17% (11 allan o 64) yn rhoi'r grŵp hwn yn eu dau uchaf. Ymhlith y grwpiau defnyddwyr eraill y mae ymatebwyr yn disgwyl iddynt brofi cynnydd yn y galw am wasanaethau cymorth, mae pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed ag anghenion cymorth; y rhai sydd angen cefnogaeth generig i atal digartrefedd; pobl â materion camddefnyddio sylweddau; a menywod sy'n profi cam-drin domestig.

Siart 6. Y 5 categori defnyddiwr uchaf gyda'r cynnydd disgwyliedig mewn gwariant dros y 5 mlynedd nesaf (nifer yr ymatebwyr) n=64



- 3.18 O ran ba grwpiau defnyddwyr yr oedd ymatebwyr yn disgwyl i'r galw ddisgyn, roedd ymatebion yn gyffredinol yn canolbwyntio llai ar rai grwpiau defnyddwyr penodol, ond roedd disgwyl y byddai'r gwariant ar wasanaethau larwm yn lleihau yn y blynyddoedd i ddod. Mae 26% o'r ymatebion (10 allan o 39 safle rheng) yn rhoi gwasanaethau larwm yn eu pump uchaf, tra bod o leiaf 10% o'r ymatebion yn rhoi pob un o'r rheini ag anhwylderau datblygiadol; y rhai dros 55 oed ag anghenion cymorth; a'r rhai â salwch cronig, yn eu pump uchaf o grwpiau defnyddwyr y disgwyliid iddynt brofi gostyngiad mewn gwariant.

Siart 7. Y 5 categori defnyddiwr uchaf gyda'r gostyngiad disgwylledig mewn gwariant dros y 5 mlynedd nesaf n=39




- 3.19 Dylid nodi bod sawl ymatebydd yn ei chael hi'n anodd nodi newidiadau i alw defnyddwyr yn y dyfodol gan fod gan lawer o'u cleientiaid, y darperir gwasanaethau cymorth ar eu cyfer, anghenion cymhleth a lluosog. Yn gyffredinol, mae gwasanaethau'n newid i gefnogi nid yn unig ar un angen arweiniol ond i fod yn fwy person-ganolog ac yn gallu delio ag anghenion mwy cymhleth. Ar gyfartaledd, amcangyfrifodd ymatebwyr fod gan 57% o achosion Cefnogi Pobl anghenion cymhleth, sy'n gynydd o 6% o'i gymharu â phum mlynedd yn ôl.

Gyrwyr ariannu

- 3.20 Fel rhan o'r gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid, gofynnwyd i randdeiliaid nodi pa ffactorau y maent yn eu hystyried yn gyrru'r angen ariannu am y Grant Cymorth Tai. Yn yr arolwg, gofynnwyd i ymatebwyr nodi'r 5 gyrrwr uchaf o restr o ffactorau gan gynnwys yr opsiwn i awgrymu eu ffactorau eu hunain. Yn seiliedig ar ymatebion a sgysiau gyda rhanddeiliaid, mae'n amlwg bod aelwydydd sy'n cael eu hasesu fel rhai digartref (neu dan fygythiad o ddigartrefedd) ac yn fwy difreintiedig, fel y'u mesurir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, yn cael eu hystyried yn grwpiau defnyddwyr allweddol sy'n gyrru'r galw am wasanaethau cymorth. Fodd bynnag, nododd llawer o randdeiliaid y dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio mesurau pwynt argyfwng, megis aelwydydd yr aseswyd eu bod yn ddigartref, gan y gallai sefyllfa godi sy'n cosbi ardaloedd â rhaglenni ataliol effeithiol.

Siart 8. Y 5 gyrrwr uchaf o angen ariannu (nifer yr ymatebwyr) n=61



- 3.21 Er eu bod yn cael eu hystyried yn llai o flaenoriaeth, amlygodd ymatebwyr yr arolwg hefyd fod grŵp defnyddwyr iechyd meddwl gwael yn sbardun allweddol ar gyfer angen ariannu. Roedd gwledigrwydd yn fater allweddol arall a godwyd yn aml yn y trafodaethau â rhanddeiliaid. Nodwyd y gall darparu gwasanaeth mewn ardaloedd â dwysedd poblogaeth isel fod yn heriol oherwydd yr angen teithio ychwanegol a chostau staff ychwanegol. Roedd petruster ynghylch darparu cefnogaeth ar sail fesul pen oherwydd y materion hyn. Fodd bynnag, mewn sgysiau eraill nodwyd y gall fod problemau teithio tebyg mewn ardaloedd trefol oherwydd tagfeydd traffig. Mater a amlygwyd yn aml oedd y cynnydd mewn camddefnyddio sylweddau a'i gysylltiad ag iechyd meddwl gwaelach a thrais domestig. Nodwyd bod gweithgaredd 'llinellau cyffuriau' mewn ardaloedd gwledig wedi cael effaith andwyol ar y gyrrwyr hyn.²²
- 3.22 Cododd rhanddeiliaid hefyd y mater o sicrhau bod cyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn ddigonol i ddal pobl sy'n mudo, a newidiadau posibl mewn proffiliau demograffig a allai ddod yn sgil hyn. Er enghraifft, gall pobl ddod o Loegr i gael mynediad at wasanaethau cymorth yng Nghymru, neu gallai adeiladu carchar mawr gynhyrchu galw ychwanegol am wasanaeth mewn ardal er gwaethaf y rhagdybiaeth y bydd ymadawyr carchar yn dychwelyd i leoliad eu cartref ar ôl eu rhyddhau. Mae'r symudiad cyffredinol o ardaloedd gwledig i ardaloedd trefol, ac i'r gwrthwyneb, hefyd yn creu heriau newydd o ran darparu cefnogaeth.
- 3.23 O ran Rhentu Doeth Cymru, nodwyd bod y gweithgareddau ychydig yn wahanol i'r ffrydiau ariannu atal digartrefedd a Chefnogi Pobl. Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr o'r farn bod y dull dyrannu cyllid cyfredol, a ddyrannwyd ar sail nifer yr unedau Sector

²² Gweler yma am ddiffinad o [Linellau Cyffuriau](#).

Rhent Preifat ym mhob awdurdod lleol, yn ddangosydd da o'r angen ariannu. Fodd bynnag, nododd rhanddeiliaid hefyd fod y mesur cyfredol yn seiliedig ar amcangyfrifon ac y gellid ei wella trwy ddefnyddio data gwirioneddol o'r rhaglen Rhentu Doeth Cymru.

Cyfleoedd i optimeiddio ariannu

- 3.24 Gyda newidiadau i gyllid eisoes ar y gweill, nododd rhai rhanddeiliaid fod cyfleoedd yn dod i'r amlwg i facsimeiddio effaith y cyllid sydd ar gael. Nododd rhai awdurdodau lleol, oherwydd cyni, y bu ymdrech tuag at weithredu atebion arloesol i leddfu pwysau cyllidebol. Awgrymwyd bod hyn wedi arwain at weithredu darpariaeth gwasanaeth fwy cyfannol; er enghraifft, trwy weithio ar y cyd rhwng gwasanaethau ieuchyd meddwl a gofal cymdeithasol. Dywedodd rhanddeiliaid y gall y ffocws ar gyflenwi defnyddiwr-ganolog helpu i fynd i'r afael â rhai o'r ffactorau sy'n arwain at gylchoedd 'drws troi'. Amlygodd rhai cyfweleion y rôl y gall technoleg ei chwarae wrth wella effeithiolrwydd darparu gwasanaethau. Fodd bynnag, nodwyd bod angen cynlluniau ariannu tymor hir ac amgylchedd o sefydlogrwydd i annog arferion arloesol ymhellach.
- 3.25 Amlygodd rhai o'r RCCs yr ymgynghorwyd â hwy gyfleoedd posibl i wella gweithgareddau caffael rhanbarthol; fodd bynnag, roeddent yn pwysleisio mai dim ond mewn nifer gyfyngedig o achosion y mae cyfleoedd yn bodoli. Gwelwyd bod anallu i gynllunio ymlaen, cyfyngiadau daearyddol ac anghenion gwahanol yn aml yn atal caffael ar y cyd. Fodd bynnag, nodwyd y bu rhai enghreifftiau ar raddfa fach o gaffael ar y cyd effeithiol ar gyfer gwasanaethau arbenigol.
- 3.26 Mater ailadroddus a gododd rhanddeiliaid oedd yr her sy'n gysylltiedig â dyrannu cyllid yn flynyddol. Er ei bod yn ymddangos bod awdurdodau lleol yn cydnabod bod cylchoedd ariannu ynghlwm wrth weithdrefnau llywodraeth ganolog, byddai mesurau megis darparu cyllidebau dangosol neu hyblygrwydd i symud cyfran fach o gronfeydd i flwyddyn ariannol newydd yn helpu awdurdodau lleol i ddyrannu cyllid mewn dull mwy strategol ac arloesol, gan gynorthwyo gydag addasu i newidiadau ariannu.
- 3.27 Yn olaf nodwyd, trwy ailstrwythuro ffrydiau ariannu, bod potensial i ailedrych ar symleiddio gweithrediad rhaglenni atal digartrefedd. Mae Llywodraeth Cymru yn gweinyddu sawl rhaglen atal digartrefedd yn uniongyrchol a bu trafodaethau parhaus ynghylch a fyddai'n fwy cost effeithiol dirprwyo rheolaeth y mentrau hyn i'r awdurdod lleol perthnasol. Fodd bynnag, mae'n werth nodi mai cyllid cyfyngedig a gaiff ei ddosbarthu yn y modd hwn, ac felly nid yw'r mater hwn yn debygol o gael effaith sylweddol ar y cyllidebau sydd ar gael.

Rhent Doeth Cymru

- 3.28 Lleisiodd sawl rhanddeiliad bryder ynghylch ymgorffori cyllid Rhentu Doeth Cymru yn y Grant Cymorth Tai. Nodwyd ei fod yn cynnwys cyfran fach o'r gyllideb gyffredinol ac mae nodau'r rhaglen yn llai cyson â'r ddwy ffrwd ariannu arall. Nododd cyfweleion fod risg y bydd y cyllid cyfredol yn mynd ar goll ac yn cael ei ailddyrannu i wasanaethau mwy uniongyrchol. Argymhellwyd gan rai rhanddeiliaid y dylid ariannu cyllid Rhentu Doeth Cymru ar wahân - neu efallai y gellid darparu swm dangosol i helpu i godi ymwybyddiaeth o'r materion hyn.
- 3.29 Yn gyffredinol, disgwylir y bydd y galw am arian gorfodi yn tyfu yn y blynyddoedd i ddod wrth i'r rhaglen aeddfedu. Bu cynnydd amlwg mewn achosion cymhleth (achosion lle mae trwyddedau'n cael eu gwrthod neu eu dirymu), sy'n cynnwys costau gweinyddol uchel. Er bod ffioedd trwyddedu yn cael eu defnyddio i dalu am rai o'r

costau hyn, gydag achosion cymhleth mae problemau gorfodi yn aml gydag eiddo nad yw'n talu ffioedd trwyddedu. Byddai nifer y trwyddedau a wrthodir yn ddangosydd i helpu i asesu'r angen sy'n cael ei yrru gan achosion cymhleth. Fodd bynnag, mae'n werth nodi mai ychydig iawn o achosion sydd ar draws Cymru ar hyn o bryd.

Pryderon eraill gan randdeiliaid

Effaith ar ddarparwyr gwasanaeth

- 3.30 Sylwodd amrywiol randdeiliaid y gallai unrhyw newidiadau i gyllid gael effaith andwyol ar y farchnad darparwyr gwasanaeth, a ystyrir yn gyffredinol yn fregus oherwydd maint elw isel. I ddarparwyr gwasanaethau ar raddfa fach, mae newidiadau cyson a diffyg codiadau cyllid wedi creu heriau ariannol. Yn anecdotaidd, adroddwyd ei bod yn dod yn anoddach i ddarparwyr gwasanaeth gadw a recriwtio staff â chymwysterau addas wrth i gyflogau aros yn wastad ac wrth i'r rôl ddod yn fwy heriol o ystyried cynnydd mewn achosion cymhleth. Ystyriwyd bod sicrhau bod darparwyr gwasanaeth yn cael gwybodaeth dda am unrhyw newidiadau i gyllid ac yn cael digon o amser pontio i addasu i unrhyw ailddyraniadau, yn elfennau pwysig o unrhyw gynllun pontio.

Tai yn Gyntaf

- 3.31 Mae'r cynllun Tai yn Gyntaf (TyG) yn defnyddio dull 'canolbwyntio ar adferiad' tuag at ymdrin â digartrefedd, gyda'r nod o ymateb yn gyflym i ddigartrefedd trwy ddarparu llety hunangynhwysol ynghyd â mynediad at wasanaethau cymorth.²³ Mae'r cynllun yn darparu tai fel man cychwyn ar gyfer cefnogaeth i'r digartref a gall fod yn ddewis arall yn lle llety hostel a sefyllfaoedd byw a rennir eraill, a allai fod yn anaddas i rai. Nododd llawer o'r rhanddeiliaid a gymerodd ran fod ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r rhaglen Tai yn Gyntaf, fel y dangoswyd trwy sefydlu set o egwyddorion arweiniol ar gyfer y gwasanaeth a chylch ariannu newydd ar gyfer prosiectau TyG, yn gam cadarnhaol tuag at fynd i'r afael â'r broblem o ddigartrefedd, ond mynegodd bryder ynghylch ariannu'r costau uwch sy'n gysylltiedig â'r rhaglen. Gofynnodd awdurdodau lleol am gyfathrebu ac arweiniad pellach ar sut y gellir integreiddio'r rhaglen i'r ddarpariaeth gyfredol o wasanaethau i'r digartref, ac a allai TyG ddod o dan y Grant Cymorth Tai yn y dyfodol.

Adborth o'r ail gylch o weithdai

- 3.32 Cynhaliwyd ail gylch o weithdai yn ddiweddarach yn y broses, unwaith y bod mwy o fanylion i'w rhannu ar y dull arfaethedig o ddatblygu fformiwla ariannu newydd, rhai canlyniadau modelu o ystyried opsiynau ar gyfer fformiwla ariannu a rhai awgrymiadau penodol ar gyfer trefniadau pontio.

Dull o ddatblygu fformiwla newydd

- 3.33 Yn yr ail gylch o weithdai rhanddeiliaid, cafodd y dull a gynigiwyd ar gyfer datblygu fformiwla ariannu newydd, fel yr amlinellwyd ym Mhennod 5 yr adroddiad hwn, dderbyniad da ar y cyfan.
- 3.34 Roedd yn ymddangos bod mwyafrif y mynychwyr yn cefnogi'r defnydd o Asesiad Seiliedig ar Ddangosydd 'IBA' ar ffurf setliad llywodraeth leol gyda data Cynllun Gwariant yn cael ei ddefnyddio fel sail i fformiwla (o ystyried bod hyn yn rhoi cipolwg ar

²³ Llywodraeth Cymru (2018) [Tai yn Gyntaf \(HF\) - Egwyddorion ac Arweiniad Cenedlaethol i Gymru](#)

y cyllid cyfredol). Roedd lleiafrif o'r cyfranogwyr yn llai cefnogol ynglŷn â defnyddio data'r Cynllun Gwariant a gwnaethant nodi y byddai hyn yn edrych yn ôl yn hytrach nag edrych i'r dyfodol. Ystyriwyd y gellid mynd i'r afael â phroblem o'r fath trwy ddiweddarau'r pwysau yn y fformiwla yn y dyfodol er mwyn dal blaenoriaethau newidiol ar gyfer y Grant Cymorth Tai. Mae'n werth nodi nad oedd rhai cyfranogwyr y gweithdy yn gyfarwydd â fformiwla'u ariannu ac felly nid oeddent yn teimlo y gallent ddatblygu barn gref o blaid nac yn erbyn rhai agweddau ar y dull gweithredu ar y cam penodol hwn.

- 3.35 Trafodwyd gwledigrwydd fel sbardun allweddol i angen ariannu rhai awdurdodau lleol; ac un nad yw'n ymddangos mewn Cynlluniau Gwariant. Adroddodd un awdurdod lleol yn y gweithdy y treuliodd tua 25% o amser darparwyr ar deithio ac y gallai hyn godi i 50% mewn ardaloedd mwy anghysbell, er bod y farn yn tynnu sylw at y ffaith mai dim ond i leiafrif o awdurdodau lleol yr oedd gwledigrwydd yn fater arwyddocaol.
- 3.36 Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r egwyddor o gyfyngu ar y gostyngiadau mwyaf mewn cyllid y gallai awdurdod lleol eu hwynebu fel rhan o symud i fformiwla ariannu newydd, er nad oedd hyn yn gonsensws. Gwnaeth rhai cyfranogwyr yn y gweithdy'r pwynt bod cymhwyso terfynau neu gapiau i ostyngiadau cyllid yn tanseilio'r achos dros ddyrannu cyllid ar sail fformiwla. Cafwyd trafodaeth fwy cyffredinol ar y dull penodol o gyfyngu ar ostyngiadau cyllid, ond awgrymodd nifer o gyfranogwyr y byddai'n gwneud synnwyr cyfyngu ar godiadau cyllid, pe bai terfynau'n mynd i gael eu cymhwyso o gwbl.

Trefniadau pontio

- 3.37 Canolbwyntiodd y drafodaeth ar drefniadau pontio yn bennaf ar hyd y cyfnod pontio. Roedd consensws yn gymharol uchel y dylai'r pontio barhau am o leiaf bum mlynedd. Fodd bynnag, roedd llawer llai o gonsensws ynghylch faint yn hwy na phum mlynedd y dylai fod. Roedd lleiafrif sylweddol yn ffafrio cyfnod pontio pum mlynedd ac roedd lleiafrif arwyddocaol arall yn ffafrio cyfnod pontio o 10 mlynedd.
- 3.38 Er bod hyd contractau yn amrywio rhwng awdurdodau lleol, nodwyd bod gan fwyafrih helaeth y contractau gymalau 'gadael' sy'n arferadwy o fewn pum mlynedd. Roedd hwn yn rheswm a roddodd rhanddeiliaid i gefnogi peidio â mynd ymhellach na chyfnod pontio pum mlynedd. Fodd bynnag, codwyd dau bwynt i gefnogi cyfnod pontio hirach. Yn gyntaf, er y gellid gadael llawer o contractau o fewn pum mlynedd, efallai na fyddai hyn yn dal i ddarparu digon o amser i lyfnhau unrhyw un o effeithiau negyddol eraill cyllid is ar ddarparwyr gwasanaeth. Yn ail, awgrymodd rhanddeiliaid y byddai cyfnod pontio hirach yn cynyddu'r siawns y gallai'r cyfnod pontio orgyffwrdd â chyfnod o gyllidebau yn codi; gallai hyn helpu i wneud iawn am rai o'r gostyngiadau i ddyraniadau ariannu awdurdodau lleol o ganlyniad i'r fformiwla ariannu newydd.
- 3.39 Pwynt arall a godwyd gan rhanddeiliaid mewn perthynas â chyfnod pontio oedd bod y cyfnod rhwng cyhoeddi a gweithredu hefyd yn rhoi amser i awdurdodau lleol addasu i unrhyw doriadau yn y gyllideb. Petai'r fformiwla ariannu newydd yn cael ei gyhoeddi cyn dechrau'r flwyddyn ariannu 2020/21, ond nad oedd yn cael unrhyw effaith tan 2021/22, yna mae hyn yn darparu blwyddyn lle gellir dechrau gweithredu'r trawsnewid.

Ystyriaethau eraill

- 3.40 Ar wahân i'r drafodaeth ar y dull o greu fformiwla, gan gynnwys lefel aildrynnu a threfniadau pontio, codwyd nifer o bwyntiau eraill gan y rhanddeiliaid.

Clystyru rhanbarthol

- 3.41 Un pryder a godwyd gan randdeiliaid oedd clystyru rhanbarthol rhai canlyniadau ariannu; yn benodol, y potensial i nifer fawr o awdurdodau lleol mewn rhanbarth penodol golli cyllid. I'r graddau y mae clystyru rhanbarthol yn bodoli, disgwylir iddo arwain at effaith anghymesur o uchel ar ddarparwyr gwasanaeth oherwydd dim ond sgôp cyfyngedig fyddai i weithgaredd gael ei symud i farchnadoedd cyfagos. Mae hyn yn awgrymu bod angen ystyried y patrwm rhanbarthol o ailddyrannu mewn unrhyw fformiwla ariannu newydd, yn enwedig wrth ddylunio trefniadau pontio ac er mwyn ystyried a ddylai'r ailddyrannu fod yn gyfyngedig, neu wedi'i gapio.

Sefydlogrwydd lefelau ariannu o dan ddull fformiwla

- 3.42 Pwynt arall a godwyd gan randdeiliaid oedd mater anwadalrwydd lefel ariannu, o ystyried y byddai'r gwerthoedd dangosydd sy'n sail i'r fformiwla ariannu yn debygol o newid o flwyddyn i flwyddyn. Nodwyd bod y broblem hon yn arbennig o arwyddocaol yn ystod unrhyw gyfnod pontio ac fe'i harchwilir yn ddadansoddol yn Adran 5.

Ffynonellau data

- 4.1 Mae'r adran hon yn ystyried y ffynonellau data sydd ar gael i'w defnyddio mewn fformiwla ariannu, yn trafod cadernid ffynonellau a hefyd yn ystyried goblygiadau cyflwyno credyd cyffredinol ar newidynnau sy'n gysylltiedig â buddion.

Newidynnau a ystyrir ar gyfer fformiwla ariannu

Dethol newidynnau

- 4.2 Mae adrannau 2 a 3 yr adroddiad hwn yn nodi'n fras y gyrwyr y mae ffynonellau allanol a gwaith maes rhanddeiliaid wedi'u nodi fel prif yrwyr yr angen am gyllid. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau demograffig, mesurau amddifadedd, newidynnau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â digartrefedd (neu'r bygythiad o ddigartrefedd), newidynnau sy'n ymwneud â chanlyniadau iechyd (yn enwedig canlyniadau iechyd meddwl) a mesurau gwledigrwydd a phrinder poblogaeth.
- 4.3 Mewn rhai achosion, mae nifer o opsiynau amgen ar gyfer dal y newidynnau a nodwyd uchod. Nid yw pob un o'r gyrwyr angen cyllid a nodwyd yn fesuradwy yn gadarn ar hyn o bryd (e.e. ni nodwyd mesur cadarn o ganlyniadau iechyd meddwl ar lefel awdurdod lleol). Nid oes modd mesur newidynnau eraill yn uniongyrchol ond disgwylir iddynt gael eu dirprwyo'n ddibynadwy gan fesurau eraill (e.e. ni nodwyd unrhyw ffynhonnell gadarn yn benodol ar wledigrwydd, ond mae ffynonellau gwasgariad poblogaeth cadarn y gellir eu defnyddio yn lle asesiad penodol o wledigrwydd).

Dangosyddion setliad llywodraeth leol

- 4.4 Man cychwyn da ar gyfer cyrchu newidynnau i'w defnyddio yn y fformiwla ariannu newydd yw'r rhestr o ddangosyddion a ddefnyddir ar hyn o bryd yn Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2019/2020 (fel y nodir yn y 'Llyfr Gwyrdd') er mwyn gwneud Asesiadau Seiliedig ar Ddangosyddion (IBAs) ar gyfer dyrannu gwariant. Mae'r ffynhonnell hon yn cynnwys 69 o ddangosyddion, pob un ohonynt â chynsail ar gyfer eu defnyddio mewn fformiwlâu ariannu. Mae gan y newidynnau hyn fantais o gael eu cyhoeddi'n flynyddol, gan gyfrannu at feini prawf tryloywder.

Ffynonellau data ychwanegol

- 4.5 Yn ychwanegol at yr ystod lawn o ddangosyddion setliad, nodwyd newidynnau ychwanegol i ddarparu gwybodaeth bellach ar fesurau amddifadedd a fforddiadwyedd tai, nad yw'n cael ei nodi'n benodol yn y Llyfr Gwyrdd cyfredol. Ni nodwyd unrhyw ffynonellau cadarn ar lefel awdurdod lleol i fesur canlyniadau iechyd meddwl yn uniongyrchol fel rhan o'r prosiect hwn, a oedd yn sbardun allweddol i'r angen ariannu o'r ymarfer ymgynghori â rhanddeiliaid. Cyflwynir manylion llawn y ffynonellau data ychwanegol ac argaeledd y dangosyddion posibl yn Nhabl 1.

Tabl 1. Ffynonellau data ac argaeledd

Newidynnau	Ffynonellau	Amllder cyhoeddi ²⁴	Disgrifiad
Poblogaeth mewn Amddifadedd Incwm (WIMD)	StatsCymru-Llywodraeth Cymru	*	Dangosydd WIMD. Mae'n cyfleu maint yr amddifadedd sy'n gysylltiedig ag incwm. Mae'n canolbwyntio ar gyfran y bobl sydd ag incwm islaw lefel ddiffiniedig
Poblogaeth sy'n derbyn budd-daliadau cysylltiedig â chyflogaeth	StatsCymru-Llywodraeth Cymru	*	Dangosydd WIMD. Mae'n cyfleu diffyg cyflogaeth. Mae'n cynnwys gwaharddiad anwirfoddol y boblogaeth o oedran gweithio o waith, gan gynnwys y rhai na allant weithio oherwydd afiechyd neu sy'n ddi-waith, ond sy'n mynd ati i chwilio am waith.
Fforddiadwyedd Tai (meintiau is)	Swyddfa Ystadegau Gwladol	Blynyddol	Mae'n cynnwys y cymarebau fforddiadwyedd a gyfrifir trwy rannu prisiau tai ag enillion gros blynyddol yn y gweithle, yn seiliedig ar chwarteli isaf y ddwy gydran.
Fforddiadwyedd Tai (canolrif meintiau)	Swyddfa Ystadegau Gwladol	Blynyddol	Mae'n cynnwys y cymarebau fforddiadwyedd a gyfrifir trwy rannu prisiau tai ag enillion gros blynyddol yn y gweithle, yn seiliedig ar chwarteli canolrif y ddwy gydran .
Rhent cymdeithasol	StatsCymru-Llywodraeth Cymru	Blynyddol	Yn cynnwys gwybodaeth a gasglwyd gan landlordiaid cymdeithasol Cymru ar stoc a ddelir gan awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ar 31 Mawrth bob blwyddyn a'r rhenti cyfartalog cysylltiedig a godir, a osodir ar yr un dyddiad ar gyfer y flwyddyn ganlynol.
Llwythi achosion Budd-dal Tai (sector rhentu preifat)	Ystadegau Gwladol a Swyddogol yr Adran Gwaith a Phensiynau	Misol	Ffurflenni misol hawlwr budd-dal tai gan bob awdurdod lleol unigol. Mae'n ymwneud â hawlwr sy'n derbyn taliad o 50 ceiniog yr wythnos o leiaf am Fudd-dal Tai ar yr ail ddydd lau yn y mis.
Aelwydydd yn cael eu hasesu fel digartref	StatsCymru-Llywodraeth Cymru	Chwarterol	Aelwydydd sy'n gwneud cais i awdurdodau lleol am gymorth tai o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (Adran 73).
Aelwydydd dan fygythiad o ddigartrefedd	StatsCymru-Llywodraeth Cymru	Chwarterol	Aelwydydd sy'n gwneud cais i awdurdodau lleol am gymorth tai o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (Adran 66).
Nifer y rhai sy'n cysgu allan	StatsCymru-Llywodraeth Cymru	Blynyddol	Nifer y rhai sy'n cysgu allan mewn awdurdodau lleol. Cipluniau un noson yw cyfanswm y rhai sy'n cysgu allan. Mae'r cyfrif amcangyfrifedig yn seiliedig ar ddata a gasglwyd dros gyfnod o bythefnos gyda chymorth gan y sector gwirfoddol, grwpiau ffydd, busnesau / preswylwyr lleol, asiantaethau iechyd a chamddefnyddio sylweddau, a'r heddlu.
Llwythi achosion Lwfans Byw i'r Anabl (cyfraddau canol ac uchaf)	Ystadegau Gwladol a Swyddogol yr Adran Gwaith a Phensiynau	Chwarterol	Yn cynnwys yr holl achosion sydd â hawl, sy'n dangos nifer y bobl sy'n derbyn lwfans a'r rhai sydd â hawl lle mae'r taliad wedi'i atal, er enghraifft os ydynt yn yr ysbyty. Fodd bynnag, nodwch fod Taliadau Annibyniaeth Personol yn cael eu disodli gan DLA ar gyfer pobl anabl.

²⁴ Mae'r sêr yn dynodi achosion lle na nodwyd gwybodaeth ynghylch naill ai amllder cyhoeddi neu'r diweddariad nesaf o'r data.

Dewis ffynonellau cadarn

- 4.6 Mae'r data ar newidynnau posibl y gellid eu hystyried ar gyfer fformiwla ariannu, fel y cawsant eu cyflwyno'n fwy penodol yn yr adran flaenorol, yn cael eu darparu gan wasanaethau ystadegol swyddogol. Yn benodol, y ffynonellau yw: Ystadegau ar gyfer Cymru (StatsCymru), sef gwasanaeth ystadegol llywodraeth Cymru, sy'n darparu ystadegau swyddogol annibynnol; y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), sef swyddfa weithredol Awdurdod Ystadegau'r DU a chynhyrchydd annibynnol swyddogol mwyaf y DU o ystadegau swyddogol; a'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), sy'n adran o lywodraeth y DU ac sy'n gyfrifol am bolisi lles a phensiwn.
- 4.7 Mae'r ffynonellau'n darparu data mynediad agored ac am ddim, gan awgrymu y byddai'r rhai sy'n derbyn cyllid yn gallu nodi'r dangosyddion yn y fformiwla ddosbarthu, fel y gellir bodloni tryloywder, un o'r egwyddorion allweddol ar gyfer fformiwla ariannu. At hynny, mae data'n cael ei ddiweddarau'n aml (gydag uchafswm oedi amser o flwyddyn), tra bod y ffynonellau data yn annibynnol. Felly, mae dibynnu ar Ystadegau Swyddogol yn golygu y gellir bodloni cywirdeb, egwyddor allweddol arall ar gyfer fformiwla ariannu hefyd.

Credyd Cynhwysol (CC)

- 4.8 Mae Credyd Cynhwysol (CC), a gyhoeddwyd gyntaf yn 2010, yn fudd-dal nawdd cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig sy'n dod ag ystod o fuddion oedran gweithio ynghyd mewn un taliad. Mae'n disodli chwe budd-dal prawf modd (y cyfeirir atynt hefyd fel buddion etifeddiaeth): Budd-dal Tai, Credyd Treth Plant, Cymorth Incwm, Credyd Treth Gweithio, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag Incwm. Dechreuwyd cyflwyno'r budd-dal newydd yn 2013, a rhagwelir na fydd yn cael ei weithredu'n llawn cyn 2023 ar draws y DU.
- 4.9 Mae angen ystyried cyflwyno CC wrth ddylunio fformiwla ariannu newydd oherwydd efallai na fydd opsiynau sy'n cysylltu cyllid ag elfennau o'r systemau budd-daliadau, a allai gael eu heffeithio gan ddiwygiadau CC, yn cael eu diogelu'n llawn yn y dyfodol.

Argymhellion fformiwla ariannu newydd

- 5.1 Mae rhan gyntaf y bennod hon yn amlinellu'r dull o ddatblygu fformiwla ariannu a threfniadau pontio, mae'r ail adran yn darparu manylion y fformiwla arfaethedig ac mae'r adran olaf yn amlinellu'r argymhellion ar gyfer y trefniant pontio. Mae'r opsiynau hyn yn adeiladu ar yr adolygiad o lenyddiaeth, casglu data a gwaith maes gyda rhanddeiliaid a ddisgrifir yn Adrannau 2-4 uchod.

Dull

Cam I. Cadw at gynseiliau setliad

- 5.2 Mae'r dull o greu fformiwla ariannu newydd wedi'i seilio'n agos ar gynseiliau i greu fformiwla sy'n gyson â dyraniadau ariannu awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.
- 5.3 Fel y trafodwyd yn Adran 2, mae Asesiadau Seiliedig ar Ddangosyddion (IBAs) setliad llywodraeth leol yn tueddu i fod yn gymharol syml a thryloyw, gan ystyried dangosyddion 1-5 i gynhyrchu dyraniad cyllid. Penderfynir ar ddyraniadau cyllid ar sail lluosï'r set berthnasol o ddangosyddion â'u pwysiau priodol. Lle mae dangosyddion priodol eisoes yn cael eu defnyddio fel rhan o'r IBAs presennol, defnyddiwyd y rhain yn y dyraniad cyllid arfaethedig.

Cam II. Defnyddio Cynlluniau Gwariant 2019/20 i lywio dyluniad fformiwla

- 5.4 Yn dilyn adborth o weithdai rhanddeiliaid y byddai Cynlluniau Gwariant yn fan cychwyn rhagorol ar gyfer ystyried dyraniad cyllid, crëwyd fformiwlâu sy'n cysylltu categorïau cleientiaid mewn Cynlluniau Gwariant â dangosyddion ar gyfer lefel eu hangen. Yn seiliedig ar yr adolygiad o argaeledd data yn Adran 2, mae nifer o gategorïau cleientiaid nad oes dangosyddion penodol ar eu cyfer sydd wedi'u cysylltu'n glir ag angen ariannu. Yn yr achosion hyn, defnyddiwyd cyfartaledd poblogaeth a dangosydd amddifadedd fel dangosydd angen, gyda'r dangosydd amddifadedd yn cael pwysau dwbl.
- 5.5 Dengys Tabl 2 ddadansoddiad o gategorïau cleientiaid o fersiwn gyfun o'r Cynlluniau Gwariant ar gyfer pob un o'r 22 awdurdod lleol, gyda a heb gynnwys "Pobl ag Anableddau Dysgu" ac mae'n awgrymu dangosydd ar gyfer pob categori yn seiliedig ar y rhai yn y Llyfr Gwyrdd cyfredol.

Tabl 2. Categoriâu cleientiaid Cynllun Gwariant 2019/20 a'r dangosyddion a awgrymir

Categori cleient	% o wariant (1 lle degol)	Dangosydd
Menywod sy'n profi Cam-drin Domestig	7.8%	Pob'th 16+ a phrocsi Amddifadedd
Dynion sy'n profi Cam-drin Domestig	0.3%	
Pobl ag Anableddau Dysgu	22.3%	Dangosydd AD
Pobl â Materion Iechyd Meddwl	10.8%	Pob'th 16+ a phrocsi Amddifadedd
Pobl â Materion Camddefnyddio Sylweddau (Alcohol)	0.9%	
Pobl â Materion Camddefnyddio Sylweddau (Cyffuriau a sylweddau Anweddol)	3.1%	
Pobl â Hanes Troseddol	2.1%	
Pobl â Statws Ffoaduriaid	0.2%	
Pobl ag Anableddau Corfforol a/neu Synhwyrdd	1.1%	
Pobl ag Anhwylderau Datblygiadol (e.e. awtistiaeth)	0.2%	
Pobl â Salwch Cronig (gan gynnwys HIV, Cymhorthion)	0.0%	
Pobl Ifanc sy'n Ymadael â Gofal	0.6%	Procsi amddifadedd*
Pobl Ifanc ag Anghenion Cymorth (16-24)	11.1%	
Teuluoedd riant sengl gydag Anghenion Cymorth	0.6%	
Teuluoedd ag Anghenion Cymorth	3.5%	
Pobl sengl ag Anghenion Cymorth nad ydynt wedi'u rhestru uchod (25-54)	4.0%	
Pobl dros 55 oed ag anghenion Cymorth (rhaid i'r categori hwn gynnwys gwasanaethau larwm)	7.1%	Pensiynwyr â salwch tymor hir cyfyngol (data Llyfr Gwyrdd diweddaraf)
Cymorth generig fel y bo'r angen i atal digartrefedd (gwasanaethau cymorth tenantiaeth sy'n cwmpasu ystod o anghenion defnyddwyr ond heb gynnwys cefnogaeth safle sefydlog)	17.6%	Dangosydd digartrefedd**
Gwasanaethau Larwm (gan gynnwys mewn gofal ychwanegol-gwarchod)	1.3%	Procsi amddifadedd *
Gwariant nad yw'n cysylltu'n uniongyrchol â chategoriâu'r cynllun gwariant uchod	5.2%	Pob'th 16+ a phrocsi Amddifadedd*
Cyfanswm	100%	

* Hawlwyr cynhaliath incwm, lwfans ceisio gwaith, credyd pensiwn neu gredyd cyffredinol (ddim mewn cyflogaeth), 18-64 oed.

** Aelwydydd dan fygythiad o Ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod – Nifer (Adran 66), a ddewiswyd fel y dangosydd gorau i adlewyrchu'r categori cleient targed Cefnogi Pobl

- 5.6 Dangosir y pwysau cyfun ar gyfer pob dangosydd yn Nhabl 3 cyn yr addasiadau a wneir mewn camau dilynol.

Tabl 3. Pwysau fformiwla cyn-addasu

Dangosydd	Pwysau (%)
Poblogaeth 18 oed a throsodd	10.6%
Procsi amddifadedd*	42.3%
Dangosydd digartrefedd**	17.6%
Pensiynwyr â salwch tymor hir cyfyngol	7.1%
Pobl ag anableddau dysgu	22.3%
Cyfanswm	100.0%

Noder: efallai na fydd y ffigurau yn cyfansymio oherwydd talgrynnu

** Hawlwyr cynhaliath incwm, lwfans ceisio gwaith, credyd pensiwn neu gredyd cyffredinol (ddim mewn cyflogaeth), 18-64 oed*

*** Aelwydydd dan fygythiad o Ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod – Nifer (Adran 66),*


Cam III. Addasu ar gyfer gwledigrwydd / prinder poblogaeth

- 5.7 Yn ystod y broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid, roedd nifer o sylwadau y dylid ystyried gwledigrwydd wrth ddylunio fformiwla ar y sail bod goblygiadau cost o ddarparu cefnogaeth i gleientiaid mewn ardaloedd gwledig. Gall y mater hwn fod yn sylweddol, gydag un awdurdod lleol yn nodi bod tua 25% o amser darparwr yn cael ei dreulio ar deithio, ac y gallai hyn godi i 50% mewn ardaloedd mwy anghysbell. Fodd bynnag, nid yw'n addasiad sy'n dod yn naturiol o fformiwla sy'n seiliedig ar Gynllun Gwariant ac yn lle hynny mae'n ofynnol gwneud addasiad ychwanegol.
- 5.8 O'r 46 fformiwla ariannu yn Llyfr Gwyrdd 2019/20,²⁵ mae naw (20%) yn defnyddio dangosyddion gwasgariad poblogaeth. Ar gyfer y naw fformiwla hyn, mae'r pwysau a roddir ar wasgariad yn amrywio o 0.4% (ar gyfer Grant Byw'n Annibynnol Cymru) i 17.6% (ar gyfer casglu sbwriel), gyda phwysau cyfartalog o 7.6%. Dengys Siart 9 isod, a atgynhyrchwyd o Lyfr Gwyrdd 2019/20, i ba raddau y mae gwahanol gategorïau o ddangosyddion yn gyrru dyraniadau cyllid.
- 5.9 Mae'r pwysau cyfartalog o 6% a roddir ar brinder poblogaeth (gwledigrwydd) wedi'i gymhwyso i'r fformiwla a gyflwynir isod, gan ddefnyddio mesur presennol o wasgariad poblogaeth.²⁶ Mae pwysau eraill i gyd wedi'u lleihau yn unol â hynny, felly maent yn dod i 94% cyn yr addasiad a wnaed yn ystod Cam 4.

²⁵ Ac eithrio'r cyllid a ddosberthir yn unol ag Asesiadau Seiliedig ar Ddangosyddion (IBAs) ac Asesiadau Gwariant Safonol (SSAs) anghyfredol.

²⁶ Y mesur "Trothwy gwasgariad 300 (2001)" yn y Llyfr Gwyrdd, a ddewisir yn bennaf oherwydd mai dyma'r mesur diweddaraf o wasgariad.

Siart 9. Crynhoad o elfennau Asesiad Gwariant Safonol i categorïau dangosyddion angen (Ffynhonnell: Llyfr Gwyrdd 2019/20)



Cam IV. Addasu i ymdrin â'r newidiadau mwyaf posibl mewn ariannu

- 5.10 Yn ychwanegol at y fformiwla ariannu a gyflwynir isod, dadansoddwyd nifer gymharol fawr o fformiwla'u amgen. Yn nodedig, cynhyrchodd pob fformiwla'r canlyniad, gyda chyfanswm cyllideb wedi'i rewi ar gyfer y Grant Cymorth Tai, y byddai ailddyrannu yn arwain at ostyngiad cyllid o fwy na 30% ar gyfer o leiaf un awdurdod lleol ac yn nodweddiadol ar gyfer mwy nag un. Ni nodwyd ateb ar gyfer datrys y broblem hon gan ddefnyddio Asesiad Seiliedig ar Ddangosydd traddodiadol.²⁷
- 5.11 Mae rhesymau da dros ostwng y lefel hon o ailddyrannu i ryw raddau:
- Mae'n debygol bod rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol yn y dyraniad cyllid cyfredol na ellir ei ddal yn hawdd gan ddangosyddion amgen. Golyga hyn y bydd rhai patrymau rhanbarthol i'r rhai sydd angen cyllid na fyddant yn cyfateb i unrhyw ffynonellau ystadegol dibynadwy sydd ar gael i seilio fformiwla arnynt.
 - Rhaid ystyried yr effaith ar ddarparwyr. Mae pwysau ariannu cyffredinol yn y sector, gan gynnwys pwysau ar gyllidebau cyllid cyhoeddus eraill ac o godiadau yn y Cyflog Byw Cenedlaethol. Problem ychwanegol yw clystyru rhanbarthol, gyda disgwyl i fwy o Awdurdodau Lleol yng Ngogledd Cymru weld gostyngiadau mewn cyllid nag yng Nghanolbarth Cymru neu Dde Cymru, sy'n creu problem benodol i ddarparwyr yng Ngogledd Cymru.
 - Cafwyd cefnogaeth sylweddol gan randdeiliaid i gyfyngu ar faint o ailddyrannu cyllid, gyda phryderon ynghylch rheoli gostyngiadau mawr a chynnydd mawr mewn cyllid.
- 5.12 I ymdrin â'r materion uchod, rhoddir pwysau parhaol ar ddyraniad cyllid 2019/20. Mae'r pwysau hwn wedi'i bennu ar 30%, ac o ganlyniad, os yw lefel genedlaethol cyllid Grant Cymorth Tai yn aros yn wastad, mae'r gostyngiad uchaf mewn cyllid ar gyfer unrhyw awdurdod lleol ychydig dros 20%. Yn absenoldeb y ffactor lleddfu hwn, byddai tri Awdurdod Lleol yn gweld gostyngiadau cyllid o tua 30% gan dybio cyllideb genedlaethol wastad.

²⁷ Roedd hyn yn wir hyd yn oed o ddefnyddio technegau ystadegol datblygedig fel dadansoddiad atchweliad i geisio nodi'r IBA a fyddai'n arwain at y swm lleiaf o ailddyrannu o'i gymharu â'r dyraniad cyllid cyfredol.

Cam V. Dylunio trefniadau pontio

- 5.13 Mae amryw o opsiynau ar gyfer dylunio trefniadau pontio ond y ffactor allweddol i'w bennu yw hyd y cyfnod pontio. Mae pontio dros gyfnodau hirach angen newidiadau blynyddol llai, ond mwy ohonynt.
- 5.14 Yn seiliedig ar adborth o ymgysylltu â rhanddeiliaid a drafodir yn Adran 3, mae'n cymryd amser i gynyddu neu leihau cyllid. Fodd bynnag, mae anghymesuredd gyda disgwyl i ostyngiadau ariannu mawr gymryd mwy o amser i'w gweithredu na chynnydd mawr mewn cyllid. Gan ganolbwyntio ar yr Awdurdodau Lleol gyda'r cwympiadau mwyaf mewn dyraniadau cyllideb, mae angen isafswm cyfnod pontio o 5 mlynedd i gyfyngu pob toriad cyllid blynyddol i uchafswm o oddeutu 4% (gan dybio cyfanswm cyllideb wastad). Mae angen cyfnod o 10 mlynedd i gyfyngu toriadau cyllid blynyddol i uchafswm o 2%.
- 5.15 Gallai'r hyd hwn (o 5-10 mlynedd) ar gyfer trefniant pontio fod yn hirach nag a ddymunir o safbwynt cael cyllid yn gymharol gyflym i'r man lle mae'r angen mwyaf am arian. Fodd bynnag, gallai hyn gael ei liniaru gan lai o effeithiau negyddol ar ddarparwyr gwasanaeth a llai o bwysau ar Awdurdodau Lleol i newid lefelau darpariaeth yn gyflym, y mae'n rhaid eu pwysu yn erbyn buddion ailddyrrannu cyllid tuag at anghenion cleientiaid.
- 5.16 Er nad oes ateb "cywir" i'r hyd sydd ei angen ar gyfer pontio, dewiswyd cyfnod pontio o saith mlynedd o addasiadau cyllid. Mae hyn i bob pwrpas yn caniatáu wyth mlynedd i'r broses gael ei chwblhau rhwng y cyhoeddiad a'i gweithredu'n llawn os yw'r cyhoeddiad cyn 2020/21, ond na wneir unrhyw newid i gyllid yn y flwyddyn hon. Mae'r cyfnod hwn o saith mlynedd o addasiadau cyllid a bwloch wyth mlynedd rhwng cyhoeddi a chwblhau'r pontio yn disgyn yng nghanol y ffenestri pum mlynedd a deng mlynedd sydd â chefnogaeth sylweddol gan randdeiliaid.
- 5.17 Er mwyn cynorthwyo gyda symrlwydd a thryloywder, cyflwynir y newid o'r lefelau ariannu cyfredol i'r cyflwr cyson newydd ar sail llinell syth fel bod un rhan o saith o'r cyfanswm addasiad gofynnol yn digwydd ym mhob un o'r saith mlynedd o bontio.

Fformiwla ariannu newydd a lefelau ariannu pontio

Fformiwla ariannu

Gweler y fformiwla ariannu ganlyniadol o ddilyn Camau 1 i 5 uchod yn Nhabl 4.

Tabl 4. Fformiwla ariannu newydd

Pwysau 1	Is-bwysau	Dangosydd
% y pontio wedi'i gwblhau x	0.300 x	Dyraniad ariannu Cefnogi Pobl 2019/20
	0.070 x	Poblogaeth 18 oed a throsodd (rhagamcanol)
	0.278 x	Hawlwyr Cymorth incwm, lwfans ceisio gwaith, credyd pensiwn neu gredyd cynhwysol (ddim mewn cyflogaeth), 18-64 oed
	0.116 x	Aelwydydd dan fygythiad o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod (Adran 66)
	0.047 x	Poblogaeth 60 oed a throsodd (rhagamcanol)
	0.147 x	Pobl ag anableddau dysgu
	0.042 x	Trothwy gwasgariad 300 (2001)
% y pontio heb ei gwblhau x	1.000 x	Dyraniad ariannu Cefnogi Pobl 2019/20

Gwariant fesul pen cyson fel meincnod

- 5.18 Fel achos meincnod, cyflwynir y senario eglurhaol o osod cyllid Grant Cymorth Tai yn gyson ar sail fesul pen fel cymharydd.
- 5.19 Yn ogystal ag ystyried yr opsiwn hwn fel achos meincnod amgen i'r lefelau ariannu cyfredol, dylid nodi hefyd bod cynseiliau ar gyfer seilio fformiwlâu cyllid yn unig ar y boblogaeth. O'r 46 fformiwla ariannu yn Llyfr Gwyrdd 2019/20,²⁸ mae chwech (13%) yn seiliedig ar fesurau poblogaeth yn unig, ac mae 34 (74%) yn cynnwys mesurau poblogaeth fel rhan o'u fformiwla ariannu. Mae mesurau dyrannu cyllid yn seiliedig ar boblogaeth yn tueddu i berfformio'n dda o ran symrlwydd a thryloywder, er yn nodweddiadol mae'n bosibl gwella ar ddyraniadau ar sail poblogaeth yn unig drwy gynnwys newidynnau sydd wedi'u targedu'n agosach at fesur anghenion unigolion.

Amcangyfrif o ddyraniadau ariannu cyflwr cyson

- 5.20 Dengys Tabl 5 gyfran y cyllid ar gyfer pob awdurdod lleol o dan y dyraniad presennol, fformiwla newydd a gwariant cyson fesul pen fel meincnod. Yn ogystal, dangosir y ganran ofynnol o newid ariannu, gan dybio na fydd unrhyw newid yng nghyfanswm yr ariannu.
- 5.21 Cynhwysir y gwerthoedd ar gyfer dangosyddion a ddefnyddir ar gyfer y cyfrifiad.

²⁸ Ac eithrio'r cyllid a ddosberthir yn unol ag Asesiadau Seiliedig ar Ddangosyddion (IBAs) ac Asesiadau Gwariant Safonol (SSAs) anghyfredol.

Tabl 5. Amcangyfrif o ddyraniadau ariannu cyflwr cyson (ar ôl pontio) yn ôl awdurdod lleol

	Cyfredol	Cyson fesul pen	% gwahaniaeth o'r cyfredol	Fformiwla ariannu newydd	% gwahaniaeth o'r cyfredol
Ynys Môn	2.1%	2.2%	4.8%	2.3%	6.2%
Gwynedd	4.1%	4.0%	-2.9%	3.7%	-9.6%
Conwy	5.2%	3.7%	-28.5%	4.1%	-21.2%
Sir Ddinbych	4.4%	3.1%	-31.2%	3.7%	-15.8%
Sir y Fflint	4.7%	5.0%	5.5%	4.5%	-4.3%
Wrecsam	4.0%	4.5%	11.4%	3.8%	-5.5%
Powys	4.2%	4.2%	1.2%	3.7%	-10.5%
Ceredigion	2.4%	2.4%	2.5%	2.4%	0.6%
Sir Benfro	2.2%	4.0%	80.6%	3.5%	57.6%
Sir Gaerfyrddin	5.3%	6.0%	13.3%	5.9%	12.3%
Abertawe	11.2%	7.8%	-29.9%	9.0%	-19.8%
Castell-nedd Port Talbot	3.9%	4.5%	16.3%	4.6%	18.9%
Pen-y-bont ar Ogwr	4.7%	4.6%	-2.8%	4.3%	-8.7%
Bro Morgannwg	2.8%	4.1%	46.4%	3.3%	17.5%
Rhondda Cynon Taf	7.3%	7.6%	4.0%	7.9%	7.5%
Merthyr Tudful	1.7%	1.9%	10.2%	1.9%	12.7%
Caerffili	5.0%	5.8%	14.6%	5.8%	15.4%
Blaenau Gwent	2.1%	2.2%	7.1%	2.7%	32.1%
Torfaen	2.8%	2.9%	5.9%	3.0%	9.2%
Sir Fynwy	1.6%	3.0%	80.8%	2.0%	24.4%
Casnewydd	5.1%	4.8%	-7.5%	5.2%	1.6%
Caerdydd	13.2%	11.8%	-10.3%	12.6%	-4.1%
Cyfanswm	100%	100%	-	100%	-
Cynnydd canolrif	-	-	10.2%	-	12.7%
Gostyngiad canolrif	-	-	-10.3%	-	-9.6%

*Noder: efallai na fydd y ffigurau yn cyfansymio oherwydd talgrynnu

- 5.22 Bydd ailddyrannu cyllideb sefydlog yn arwain at rai awdurdodau lleol yn derbyn mwy o arian a rhai yn derbyn llai. Wrth sôn am y canlyniadau yn Nhabl 4, y pwynt trawiadol cyntaf yw faint o'r arian fesul pen sy'n amrywio o dan y dyraniad Cefnogi Pobl presennol. Byddai lefelu ariannu fesul pen trwy'r fformiwla ariannu arfaethedig yn gweld 12 o bob 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn profi newid mewn ariannu (naill ai cynnydd neu ostyngiad) o 10% neu fwy o'u dyraniad cyllideb cyfredol.
- 5.23 Roedd y thema hon yn gyson ar draws yr ystod o fformiwlâu cyllid a ystyriwyd fel rhan o'r dadansoddiad hwn gyda'r holl Asesiadau Seiliedig ar Ddangosyddion ar gyfer y Grant Cymorth Tai, gan arwain at lefelau sylweddol o ailddyrannu. Mae hyn yn awgrymu bod yr angen ariannu wedi newid dros amser ac yn wahanol i'r dosbarthiad ariannu cyfredol, fel bod unigolion ag anghenion cymorth cyfatebol yn derbyn gwahanol lefelau o gymorth gan ddibynnu ar ble maent yn byw.
- 5.24 Dengys Tabl 6 lefelau pontio damcaniaethol o ddyraniad cyllid rhwng 2011/22 a 2027/28 gan dybio nad yw'r dangosyddion cyfredol yn newid rhwng nawr a 2027/18 i roi syniad o sut fyddai'r pontio'n edrych. Mae'n werth nodi, pe bai cyfanswm cyllideb y Grant Cymorth Tai yn dechrau codi, yna byddai'n bosibl cyflawni rhai gostyngiadau mewn dyraniadau cyllid heb doriadau mewn cyllid enwol, a fyddai'n hwyluso'r newid i'r dyraniad cyflwr cyson newydd.


Tabl 6. Dyraniad ariannu damcaniaethol yn ôl blwyddyn ariannol (dal penderfynyddion fformiwla yn gyson)

	Blwyddyn ariannol						
	21/22	22/23	23/24	24/25	25/26	26/27	27/28
Ynys Môn	2.16%	2.17%	2.19%	2.21%	2.23%	2.25%	2.27%
Gwynedd	4.02%	3.97%	3.91%	3.86%	3.80%	3.74%	3.69%
Conwy	5.06%	4.90%	4.75%	4.59%	4.43%	4.27%	4.11%
Sir Ddinbych	4.33%	4.23%	4.13%	4.03%	3.93%	3.83%	3.73%
Sir y Fflint	4.67%	4.64%	4.61%	4.58%	4.55%	4.52%	4.49%
Wrecsam	4.00%	3.97%	3.94%	3.90%	3.87%	3.84%	3.81%
Powys	4.09%	4.03%	3.96%	3.90%	3.84%	3.78%	3.72%
Ceredigion	2.38%	2.38%	2.39%	2.39%	2.39%	2.39%	2.39%
Sir Benfro	2.37%	2.55%	2.73%	2.92%	3.10%	3.28%	3.46%
Sir Gaerfyrddin	5.34%	5.44%	5.53%	5.62%	5.71%	5.81%	5.90%
Abertawe	10.86%	10.55%	10.23%	9.91%	9.60%	9.28%	8.97%
Castell-nedd Port Talbot	3.98%	4.09%	4.19%	4.30%	4.40%	4.51%	4.61%
Pen-y-bont ar Ogwr	4.64%	4.59%	4.53%	4.47%	4.41%	4.35%	4.29%
Bro Morgannwg	2.87%	2.94%	3.01%	3.08%	3.15%	3.22%	3.29%
Rhondda Cynon Taf	7.40%	7.48%	7.56%	7.64%	7.71%	7.79%	7.87%
Merthyr Tudful	1.75%	1.78%	1.81%	1.84%	1.87%	1.90%	1.93%
Caerffili	5.15%	5.26%	5.38%	5.49%	5.60%	5.71%	5.82%
Blaenau Gwent	2.16%	2.25%	2.35%	2.44%	2.54%	2.63%	2.73%
Torfaen	2.81%	2.85%	2.89%	2.92%	2.96%	3.00%	3.03%
Sir Fynwy	1.70%	1.76%	1.81%	1.87%	1.93%	1.99%	2.04%
Casnewydd	5.16%	5.17%	5.18%	5.19%	5.21%	5.22%	5.23%
Caerdydd	13.08%	13.01%	12.93%	12.85%	12.78%	12.70%	12.6%

Dadansoddiad rhanbarthol

- 5.25 Er mwyn deall goblygiadau'r fformiwla ariannu newydd, mae'n bwysig ystyried sut mae'n effeithio ar ddosbarthiad rhanbarthol ariannu Cefnogi Pobl/ Grant Cymorth Tai. Mae'r mapiau gwres isod (Ffigur 1) yn dangos y dosbarthiad rhanbarthol cymharol cyn ac ar ôl y diwygiad arfaethedig ar sail fesul pen. Ymhob achos, graddiwyd i fod yn ganran o'r awdurdod lleol gyda'r lefel uchaf o ariannu fesul pen.

Ffigur 1: Ariannu Cefnogi Pobl / Grant Cymorth Tai fesul pen fel canran o'r awdurdod lleol uchaf



- 5.26 Nodwedd drawiadol gyntaf y mapiau gwres uchod (Ffigur 1) yw bod y dyraniad cyllid cymharol wedi'i wasgaru'n llawer mwy cyfartal ar sail fesul pen o dan y fformiwla ariannu newydd. Bu hon yn nodwedd gyson o'r holl fformiwlâu a ystyriwyd, sy'n awgrymu nad yw'r anwastadrwydd presennol o gyllid fesul pen yn rhywbeth y gellir ei atgynhyrchu trwy ariannu tryloyw ar sail fformiwla.
- 5.27 Yr ail nodwedd drawiadol yw bod rhai o'r Awdurdodau Lleol sy'n gweld y cwympiadau mwyaf yn eu dyraniadau ariannu yn parhau i fod ymhlith y rhai a ariennir orau mewn termau cymharol. Y mwyafrif o effaith y diwygiadau yw lleihau lledaeniad yr ariannu rhwng Awdurdodau Lleol yn hytrach na symud ardaloedd o gyllid sy'n uwch na'r cyfartaledd i gyllid sy'n is na'r cyfartaledd. Yn seiliedig ar fesur o ledaeniad ar gyfer y ddau fap gwres, mae'r lledaeniad mewn ariannu fesul pen yn cael ei leihau oddeutu traean rhwng y dyraniad ariannu cyfredol a'r dyraniad ariannu newydd.²⁹

Amrywiadau blynyddol o dan y fformiwla ariannu

- 5.28 Nodwedd arall o'r fformiwla ariannu newydd sy'n bwysig ei deall, yn enwedig ar gyfer y cyfnod pontio, yw pa mor sefydlog fydd canlyniadau'r fformiwla ariannu o flwyddyn i flwyddyn wrth i'r dangosyddion newid. Er mwyn asesu'r effaith hon, ail-grewyd y fformiwla ariannu ar gyfer y tair blynedd ariannol ddiwethaf: 2019/20 (sy'n cyfateb i'r canlyniadau uchod), 2018/19 a 2017/18.
- 5.29 Petai'r fformiwla arfaethedig wedi bod yn ei le ar gyfer y tair blynedd hyn, ar draws y 44 arsylwad (dwy flynedd o newidiadau i 22 Awdurdod Lleol), byddai'r newid blynyddol cyfartalog mewn ariannu wedi bod yn 2.1% (naill ai i fyny neu i lawr) a byddai'r newid canolrif wedi bod yn 1.8%. Gall y rhain fod yn ddigon mawr i achosi problemau ar gyfer y cyfnod pontio oherwydd gallent gynyddu'n sylweddol y newidiadau gofynnol mewn ariannu i Awdurdodau Lleol.
- 5.30 Yn ddiddorol, y newid cyfartalog dros ddwy flynedd oedd 3.1% gyda chanolrif o 2.3%, sydd ill dau yn bell o fod yn ddwbl maint y cyfartaledd blwyddyn a ffigurau canolrif. Awgryma hyn bod elfen fach o amrywiad neu sŵn yng nghanlyniadau ariannu ar sail fformiwla fel y bydd cynnydd mewn blwyddyn yn aml yn gweld gostyngiad yn y flwyddyn ganlynol ac i'r gwrthwyneb.
- 5.31 Mae hyn yn cynrychioli maes posibl ar gyfer gwaith pellach i ystyried a yw'r trefniadau pontio uchod yn ddigonol, neu a oes angen cymryd camau ychwanegol i sicrhau pontio esmwyth.

Casgliad

- 5.32 Gan adeiladu ar y rhaglen ymchwil a amlinellir ym mhedair adran gyntaf yr adroddiad hwn, mae'r bennod olaf hon yn cyflwyno ac yna'n gweithredu methodoleg ar gyfer creu fformiwla ariannu newydd a threfniadau pontio. Yna cynhaliwyd dadansoddiad o effeithiau rhanbarthol a newidiadau posibl dros amser i sicrhau bod y fformiwla'n gadarn ac mor ddiogel yn y dyfodol â phosibl.

²⁹ Mae hyn yn seiliedig ar y gwyradau safonol cymharol ar gyfer y ddau fap.

Atodiad A: Gwerthoedd dangosyddion 2019/20 a ddefnyddir ar gyfer amcangyfrif y dyraniad ariannu newydd

	Dyraniad Ariannu Pobl 2018/19	Poblogaeth oed 18 oed a hŷn (rhagamcanol)	Hawlwyr Cymorth incwm, lwfans ceisio gwaith, credyd pensiwn neu gredyd cynhwysol (ddim mewn cyflogaeth), 18-64 oed	Aelwydydd dan fygythiad o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod - Nifer (Adran 66)	Pensiynwyr â salwch tymor hir cyfyngol	Trothwy gwasgariad 300 (2001)	Pobl ag anableddau dysgu
Ynys Môn	2.14%	2.25%	2.28%	1.90%	2.27%	4.30%	2.23%
Gwynedd	4.08%	4.02%	2.77%	1.40%	3.89%	8.46%	4.85%
Conwy	5.22%	3.81%	3.25%	2.91%	4.42%	4.40%	4.39%
Sir Ddinbych	4.44%	3.03%	3.14%	3.05%	3.56%	4.31%	4.19%
Sir y Fflint	4.69%	4.92%	3.73%	3.55%	4.12%	4.01%	6.31%
Wrecsam	4.03%	4.43%	4.53%	1.34%	4.07%	2.49%	3.94%
Powys	4.15%	4.30%	1.99%	2.07%	4.31%	16.09%	3.39%
Ceredigion	2.38%	2.57%	1.26%	1.54%	2.33%	10.28%	2.92%
Sir Benfro	2.19%	4.00%	3.56%	4.19%	3.88%	8.43%	3.44%
Sir Gaerfyrddin	5.25%	5.98%	4.92%	4.05%	6.89%	12.29%	8.35%
Abertawe	11.18%	7.95%	7.88%	10.93%	8.39%	2.99%	7.34%
Castell-nedd Port Talbot	3.88%	4.54%	5.45%	6.09%	5.64%	2.93%	3.54%
Pen-y-bont ar Ogwr	4.70%	4.56%	4.90%	3.52%	4.60%	1.80%	3.41%
Bro Morgannwg	2.80%	4.06%	3.39%	3.19%	3.74%	2.38%	3.93%
Rhondda Cynon Taf	7.32%	7.53%	9.19%	7.02%	8.66%	3.60%	8.29%
Merthyr Tudful	1.72%	1.87%	2.66%	1.62%	2.12%	0.76%	1.55%
Caerffili	5.04%	5.70%	7.40%	5.81%	5.83%	2.00%	5.57%
Blaenau Gwent	2.06%	2.22%	3.67%	3.47%	2.67%	0.75%	2.53%
Torfaen	2.78%	2.91%	3.43%	4.05%	3.21%	1.20%	2.52%
Sir Fynwy	1.64%	3.03%	1.56%	2.85%	2.65%	3.75%	1.98%
Casnewydd	5.15%	4.63%	6.26%	4.64%	4.37%	1.41%	5.57%
Caerdydd	13.16%	11.69%	12.80%	20.82%	8.39%	1.37%	9.74%
Cyfanswm	100%	100%	100%	100%	100%	100%	100%

Atodiad B: Cyfeiriadau

1. Archwilydd Cyffredinol Cymru (2017) [Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru.](#)
2. Bennett, R (1982), Central Grants to Local Governments, Cambridge, Cambridge University Press.
3. Bramley, G., Watkins, D., and Karley, K (2009) [An outcome-based resource allocation model for local education services in Wales.](#)
4. Crisis (2015) [The homelessness legislation: an independent review of the legal duties owed to homeless people.](#)
5. Education Law Center (2013) [What Pennsylvania Can Learn From Other States' Education Funding Formulas.](#)
6. Independent Commission on Funding and Finance in Wales (2011) [The use of needs-based formulas in the allocation of public resources: literature review.](#)
7. LE Wales (2018) [Development of an Approach to Distributing Supporting People Monies to Local Authority Areas.](#)
8. Ministry of Housing, Communities and Local Government (2018) [Fair Funding Review: a review of relative needs and Resources.](#)
9. Ministry of Housing, Communities & Local Government (2018) [A review of local authorities' relative needs and Resources.](#)
10. Osborne and Gaebler (1992) [Reinventing Government.](#)
11. Parliament UK (2012) [The Supporting People programme.](#)
12. Smith, P (2006) [Formula Funding of Public Services.](#)
13. Llywodraeth Cymru (2013) [Grant Rhaglen Cymorth Pobl - Canllawiau Cymru.](#)
14. Llywodraeth Cymru (2017) [Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol.](#)
15. Llywodraeth Cymru (2018) [Digartrefedd yng Nghymru, 2017-2018 - Diwygiedig.](#)
16. Llywodraeth Cymru (2018) [Tai yn Gyntaf \(TyG\) – Egwyddorion a Chanllawiau Cenedlaethol Cymru.](#)